*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Fil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ar 24 Tachwedd 2015*

# BIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

## RHAGARWEINIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ar 24 Tachwedd 2015. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil Drafft.

2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil Drafft ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil Drafft, ac os nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil Drafft, ni roddir un.

3. Defnyddir y termau canlynol drwy gydol y nodiadau hyn:

- 'Mesur 2009' ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
- 'Mesur 2011' ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

## CYMHWYSIAD Y BIL DRAFFT I SIROEDD A BWRDEISTREFI SIROL HYD 1 EBRILL 2020

4. Hyd 1 Ebrill 2020, mae unrhyw gyfeiriad yn y Bil Drafft at sir, ac eithrio yn Rhan 1 (Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir) neu Bennod 1 o Ran 6 (Adolygiad o drefniadau cynghorau cymuned), i'w ddarllen fel cyfeiriad at sir neu fwrdeistref sirol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 1996 (gweler adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994).

5. Yn yr un modd, mae unrhyw gyfeiriad yn y Bil Drafft at gyngor sir i'w ddarllen fel cyfeiriad at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 1996.

## TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL DRAFFT

### Rhan 1 - Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir

6. Mae Rhan 1 o'r Bil Drafft, ac Atodlenni 1 a 5 iddo, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ad-drefnu'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, a sefydlu siroedd a chynghorau newydd o 1 Ebrill 2020. Mae Rhan 1 hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad y cynghorau newydd ac ethol eu haelodau.

### Rhan 2 - Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

7. Mae Pennod 1 o'r Rhan hon yn darparu pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau sir a 'chynghorau cymuned â chymhwysedd', gan nodi ffiniau'r pŵer a'r graddau y caniateir ei ddefnyddio at ddibenion masnachol. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhoi'r un pŵer i awdurdod lleol cymwys weithredu ag sydd gan unigolyn yn gyffredinol. Mae'n bŵer i'w ddefnyddio fel man cychwyn sy'n golygu nad oes angen i awdurdod lleol

cymwys ddibynnu ar bwerau penodol mewn deddfwriaeth er mwyn gwneud rhywbeth, ar yr amod nad yw'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud fel arall yn anghyfreithlon.

8. Mae'r amodau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni, yn ogystal â'r weithdrefn y mae'n rhaid iddynt ei dilyn, er mwyn bod yn 'gyngor cymuned â chymhwysedd' wedi eu nodi ym Mhennod 2 o'r Rhan hon.

## Rhan 3 – Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol

9. Mae Pennod 2 o'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir hybu mynediad i lywodraeth leol, a chyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol.

10. Mae Pennod 3 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol at ddibenion sicrhau bod buddiannau a blaenoriaethau cymunedol yn cael eu hystyried gan gynghorau sir wrth arfer eu swyddogaethau, ac mae Pennod 4 yn rhoi dyletswyddau i gynghorau sir mewn cysylltiad â 'ceisiadau gwella', sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir drafod gyda chyrff cymunedol penodol at ddibenion gwella canlyniadau lleol.

11. Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwella mynediad i gyfarfodydd llywodraeth leol i'r cyhoedd, ac mae Pennod 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir gyhoeddi canllaw mewn iaith arferol i fynd gyda'u cyfansoddiadau, yn ogystal â chyfeiriadau swyddogol eu haelodau y gellir anfon gohebiaeth atynt.

## Rhan 4 - Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau

12. Mae'r darpariaethau o fewn Penodau 2 i 4 o Ran 4 o'r Bil Drafft yn gosod dyletswyddau ar aelodau'r cynghorau sir sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau fel aelodau, ac mae'n nodi sut y dylid ymdrin ag unrhyw dorri ar y dyletswyddau hyn (mae Pennod 1 yn cynnwys trosolwg o'r Rhan).

13. Mae Pennod 5 yn ei gwneud yn ofynnol i faer etholedig neu arweinydd gweithrediaeth cyngor sir sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth osod amcanion ar gyfer y weithrediaeth, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr sydd am sefyll fel maer etholedig neu arweinydd gweithrediaeth lunio maniffesto ysgrifenedig. Mae hefyd yn caniatáu penodi aelodau fel cynorthwywyr i'r weithrediaeth.

14. Mae Pennod 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir gael 'prif weithredwr' yn lle 'pennaeth gwasanaeth cyflogedig', ac mae'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch ei rôl. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch swydd y pennaeth gwasanaethau democrataidd.

15. Mae Pennod 7 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu, gan gynnwys darpariaeth ynghylch hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau hynny. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau lunio adroddiadau blynyddol am sut y maent wedi arfer eu swyddogaethau a materion eraill.

16. Mae'n ofynnol i gynghorau sir, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sefydlu pwyllgor trosolwg a chraffu sy'n cynnwys cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediaeth y cyngor. Mae'r pwyllgor trosolwg a chraffu'n gweithredu fel gwrthbwys i bwerau'r weithrediaeth gan adolygu polisïau a phenderfyniadau a gwneud argymhellion i'r cyngor. Aelodau cyfetholedig pwyllgor yw'r aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r cyngor.

17. Mae pwyllgorau safonau yn ystyried cwynion nad yw ymddygiad cynghorydd yn cydymffurfio â'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y cyngor o dan y fframwaith moesegol a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i'r cwynion hynny ai peidio. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer estyn cyfrifoldebau pwyllgorau safonau i gynnwys cynghorwyr y bernir nad ydynt wedi cyflawni eu dyletswyddau statudol.

## Rhan 5 – Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well

18. Mae Rhan 5 o'r Bil Drafft yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfundrefn newydd er mwyn llywodraethu'n well mewn cynghorau sir, hynny yw, er mwyn sicrhau bod cynghorau'n cael eu rhedeg yn gywir, bod pobl yn atebol am benderfyniadau a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda. Mae Pennod 1 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar gynghorau sir i wneud, gweithredu a chydymffurfio â'r trefniadau llywodraethu, y mae'n rhaid iddynt yn eu tro gydymffurfio â'r gofynion a osodwyd gan y Bil Drafft ac o dan y Bil Drafft. O dan Bennod 2, rhaid i gynghorau sir lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol, ymgynghori arno, ei adolygu ac adrodd am gynnydd a wneir yn erbyn y materion a nodir yn y cynllun.

19. Mae Pennod 3 yn nodi sut y mae cydymffurfedd cynghorau sir â'u dyletswyddau mewn perthynas â llywodraethu o dan Bennod 1 i'w asesu; drwy 'hunanasesiad', 'asesiad gan gymheiriaid' ac 'asesiad cyfun' (hynny yw, asesiad ar y cyd a gyflawnir gan reoleiddwyr penodol).

20. Mae Pennod 4 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru drefnu adolygiad o drefniadau llywodraethu cyngor sir a'r pŵer i ymyrryd pan fyddant yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn sicrhau bod cyngor sir yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau mewn perthynas â llywodraethu o dan Bennod 1.

21. Mae Pennod 5 yn darparu ar gyfer cydweithredu gwell rhwng rheoleiddwyr penodol drwy arfer swyddogaethau penodol, ac mae Pennod 7 yn ailenwi Pwyllgorau Archwilio cynghorau sir yn Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, ac yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau ac aelodaeth y pwyllgor. Y rheoleiddwyr yw'r cyrff hynny sy'n gyfrifol am adrodd am drefniadau llywodraethu a threfniadau ariannol cynghorau, a'r ffordd y mae eu prif wasanaethau yn cael eu rhedeg. Y rheoleiddwyr yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a Gweinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau rheoleiddiol mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol.

## Rhan 6 - Cynghorau Cymuned

22. Mae'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil Drafft yn berthnasol i gynghorau cymuned.

23. Mae Pennod 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru adolygu trefniadau cynghorau cymuned; hynny yw, adolygiad o'r cymunedau o fewn y siroedd newydd, i'w sefydlu o dan y Bil Drafft ar 1 Ebrill 2020, at ddibenion argymell newidiadau i'r cynghorau cymuned a'u trefniadau etholiadol.

24. Mae Pennod 2 yn rhoi dyletswydd ar gynghorau sir i ystyried anghenion hyfforddiant cynghorwyr cymuned, ac i wneud trefniadau i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar gynghorwyr cymuned i fynychu hyfforddiant gorfodol a nodir gan gynghorau sir ac mae'n nodi sut y dylid ymdrin ag unrhyw dorri ar y ddyletswydd hon.

25. Mae Pennod 3 yn darparu y bydd etholiadau cynghorau cymuned yn cael eu pennu i'w cynnal bob pum mlynedd o 2023 (yn unol â'r newidiadau a wneir gan y Bil Drafft mewn perthynas ag etholiadau cynghorau sir), ac mae'n gwneud newidiadau perthnasol i'r ddarpariaeth ynghylch tymor swydd cynghorwyr cymuned.

**Rhan 7 - Materion y Gweithlu**

26. Mae Rhan 7 o'r Bil Drafft yn ymdrin â 'materion y gweithlu' a ddiffinnir yn y Rhan honno. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodol roi sylw i unrhyw ganllawiau ar faterion y gweithlu a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, ac mae'n darparu ar gyfer sefydlu a diddymu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion y gweithlu yn ystod ei fodolaeth.

**Rhan 8 - Cyffredinol**

27. Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch rheoliadau a gorchmynion a wneir o dan y Bil Drafft, dehongli a chychwyn, ac mae'n darparu ar gyfer enw byr y Bil Drafft. Mae Rhan 8 hefyd yn cynnwys darpariaeth (a drafodwyd uchod) ynghylch cymhwysiad y Bil Drafft i siroedd a'r bwrdeistrefi sirol sy'n bodoli cyn i'r newidiadau a wneir yn Rhan 1 ddod i rym.

**SYLWEBAETH AR ADRANNAU**

*Rhan 1 – Ardaloedd Llywodraeth Leol A Chynghorau Sir*

**Adran 1 - Yr ardaloedd llywodraeth leol ac Atodlen 1 - Siroedd yng Nghymru**

28. Mae adran 1 yn darparu y bydd y siroedd a nodir yn y tabl yn Atodlen 1 yn disodli'r siroedd a'r bwrdeistrefi sirol, a bennir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru o 1 Ebrill 2020.

29. Bydd y cymunedau'n parhau i fod yn ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru. Nid effeithir ar y cymunedau presennol, gan gynnwys eu daearyddiaeth, gan Ran 1 o'r Bil Drafft.

30. Mae Atodlen 1, sy'n nodi'r siroedd newydd, yn cynnwys dau dabl gwahanol. Mae hyn i adlewyrchu'r ddau ddewis sydd o dan ystyriaeth ar gyfer siroedd Cymru.

31. Mae'r siroedd newydd arfaethedig yn y ddau dabl yn cael eu hadnabod gan gyfeirnod yn hytrach nag enw. Bydd y cynghorau sir newydd a etholir ym Mai 2019, o dan adran 14 o'r Bil Drafft hwn, yn ystyried ac yn penderfynu ar enw ar gyfer y sir newydd ar sail y cyngor a'r argymhellion a geir gan y pwyllgor pontio perthnasol.

32. Mae paragraff 2 o Atodlen 1 yn darparu Gweinidogion Cymru â phŵer i wneud rheoliadau i ddiwygio enwau'r siroedd yn Atodlen 1 i adlewyrchu'r penderfyniad a wneir yn lleol gan y cynghorau sir newydd fel awdurdodau cysgodol (gweler adran 15 ar gyfer darpariaeth ar gyfer awdurdodau cysgodol).

33. Mae'r Bil Drafft yn diddymu'r cysyniad o fwrdeistrefi sirol yng Nghymru ac yn eu lle'n sefydlu'r siroedd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft. O ganlyniad, mae'r pŵer yn adran 245A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gyngor sir gyflwyno deiseb i Ei Mawrhydi i roi siarter sy'n rhoi statws bwrdeistref sirol wedi ei ddiddymu (gweler paragraff 7 o Atodlen 5).

**Pennod 2 - Cynghorau Sir**

34. Mae adrannau 2 i 12 yn ailddatgan llawer o adrannau 21 i 26 a 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ond gyda rhai newidiadau. Mae adrannau 21 i 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wedi eu diddymu gan baragraff 5 o Atodlen 5. Mae paragraff 6 o Atodlen 5 yn diwygio adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel nad yw'r adran ond yn gymwys mewn perthynas â siroedd a dosbarthau yn Lloegr a bwrdeistrefi Llundain.

35. Mae'r nodiadau isod yn amlygu rhai o'r prif enghreifftiau pan fo'r Bil Drafft wedi gwneud newidiadau i'r darpariaethau yn adrannau 21 i 26 a 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wrth eu hailddatgan yn y Bil Drafft hwn.

**Adrannau 3 i 9**

36. Mae'r defnydd o *'title'* yn yr adrannau hyn o'r testun Saesneg yn hytrach na *'style'*, a ddefnyddiwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, yn ganlyniad o ddiweddaru'r iaith yn unig. Yn yr un modd, nid yw hepgor y cyfeiriadau at 'maer', 'dirprwy faer', 'cadeirydd dinesig' a 'dirprwy gadeirydd dinesig' ond yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bil Drafft yn bodoli'n y Gymraeg a'r Saesneg, ond nid dyna oedd yr achos ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff cyngor barhau i benderfynu bod y cadeirydd i gael y teitl 'maer' etc.

**Adran 6 - Cadeirydd â'r hawl i'r teitl 'maer'**

37. Nodwedd o statws 'bwrdeistref sirol' o dan adran 25A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 oedd bod gan gadeirydd yr hawl i'r teitl 'maer'.

38. Mae adran 6 yn darparu y bydd yr holl gynghorau sir yn gallu penderfynu bod y cadeirydd i gael y teitl 'maer'. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn eglur bod y penderfyniad yn fater i'r cyngor yn hytrach na'r cadeirydd, i'w benderfynu drwy fwyafrif syml o'r cynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod lle y mae'r penderfyniad yn cael ei bleidleisio arno yn rhinwedd paragraff 39(1) o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae paragraff 39(1) yn darparu, oni phennir yn wahanol mewn deddfwriaeth, fod penderfyniadau'r cyngor i'w gwneud drwy fwyafrif syml y cynghorwyr sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y mater sy'n cael ei benderfynu.

**Adran 9 - Teitl cadeirydd etc. pan fo cyngor wedi penderfynu cael aelod llywyddol**

39. Mae adran 9 yn darparu, pan fo cyngor yn penderfynu cael aelod llywyddol, fod rhaid i'r cyngor ddewis rhwng 'maer' a 'cadeirydd dinesig' fel teitl cadeirydd y cyngor. Yn flaenorol, yr oedd gan y cadeirydd yr hawl i'r teitl 'cadeirydd dinesig' ond gallai barhau fel 'cadeirydd'. Dyma yw'r sefyllfa hefyd ar gyfer is-gadeirydd y cyngor.

**Adran 10 - Etholiadau cyffredin cynghorwyr a chyfnod mewn swydd**

40. Mae etholiadau cyffredin nesaf (hynny yw, etholiadau sy'n cael eu cynnal fel rhan o'r cylch etholiadol arferol, yn hytrach nag is-etholiad) y cynghorau sydd i'w diddymu gan y Bil Drafft i'w cynnal yn 2017 yn rhinwedd adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Byddai'r etholiadau cyffredin dilynol yn cael eu cynnal yn arferol yn 2021, yn unol â'r adran honno. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r diwygio ar lywodraeth leol sy'n mynd rhagddo, mae'n angenrheidiol diwygio amseru'r etholiadau a chyfnod swydd y cynghorwyr yn ystod y cyfnod rhwng 2017 a 2023.

41. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer etholiadau o 2023 ymlaen (rhagwelir na fydd y ddarpariaeth hon yn dod i rym hyd nes ar ôl etholiadau 2017, ac felly ni fydd yn effeithio arnynt). Gellir dod o hyd i drefniadau pontio ym mharagraff 10 o Atodlen 5 ar gyfer cyfnod swydd cynghorwyr y cynghorau sy'n cael eu diddymu gan adran 1 a chyfnod

swydd cynghorwyr y cynghorau sir newydd a etholir yn 2019 o dan adran 14. Mae'r newidiadau hefyd yn effeithio ar etholiadau cyffredin y cynghorau cymuned; nodir y rhain yn adran 171 o'r Bil Drafft.

**Adran 11 - Wardiau etholiadol**

42. Etholwyd aelodau yn flaenorol ar gyfer ardaloedd a elwid yn 'adrannau etholiadol'. Newidiwyd y derminoleg yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013 ('Deddf 2013') fel bod yr ardaloedd yr etholir aelodau i'r cyngor sir ar eu cyfer yn cael eu galw'n 'wardiau etholiadol'. Mae adran 11 yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddir yn Neddf 2013. Diffinnir 'aelod' yn adran 22.

**Adran 13 - Siroedd newydd a chynghorau newydd**

43. Mae'r adran hon yn diffinio dau derm allweddol a ddefnyddir yn y Bennod hon. Drwy wneud hynny, mae hi hefyd yn darparu nad yw'r Bennod hon (gan gynnwys Atodlenni 2 i 4) yn gymwys i'r cyngor ar gyfer sir Powys.

**Adran 14 - Etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd**

44. Caiff etholiadau cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd ar 2 Mai 2019 eu cynnal ar sail y trefniadau etholiadol a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22(1) neu 23(2) o Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

45. Mae rheoliadau o dan adran 22(1) o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn gweithredu argymhellion ynghylch trefniadau etholiadol a gynhwysir mewn adroddiad a gyflwynir i Weinidogion Cymru gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

46. Diffinnir 'trefniadau etholiadol' yn adran 16(4) o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) ac, mewn perthynas â'r siroedd newydd, mae'n cynnwys:
- nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y sir newydd;
- rhannu'r sir yn wardiau etholiadol;
- nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y mae'r sir i'w rhannu iddynt at y diben o ethol aelodau;
- nifer yr aelodau i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol; ac
- enw'r ward etholiadol.

47. Nid yw'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 23(2) o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) ond yn dod yn berthnasol pan na fo Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, o dan adran 21 o'r Bil hwnnw, yn dilyn cyfarwyddyd a gyflwynir i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o'r Bil hwnnw i gyflawni 'adolygiad cychwynnol' o'r trefniadau etholiadol. Yn yr amgylchiadau hynny, ni ellid gwneud rheoliadau o dan adran 22(1) o'r Bil hwnnw. Byddai rheoliadau o dan adran 23(2) o'r Bil hwnnw yn cynnwys darpariaeth y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried ei bod yn briodol ar gyfer trefniadau etholiadol y siroedd newydd.

48. Mae adran 14 o'r Bil Drafft hwn hefyd yn cyflwyno Atodlen 2.

**Atodlen 2 - Cynghorau newydd: etholiadau cyffredin a chyfarfodydd cyntaf**

49. Mae Atodlen 2 yn mynd i'r afael â materion sy'n codi o gymhwyso deddfwriaeth bresennol i'r materion a ganlyn:
- rhedeg etholiadau cyntaf y cynghorau newydd ym Mai 2019;
- cyfarfodydd cyntaf y cynghorau newydd yn dilyn yr etholiadau; a

- cymhwyso ar gyfer etholiad fel aelod o'r cynghorau newydd yn yr etholiadau cyffredin cyntaf ar gyfer y cynghorau sir newydd yn 2019.

50. Mae adran 35(1A)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn darparu bod rhaid i gyngor bob sir neu fwrdeistref sirol benodi un o swyddogion y cyngor yn swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau cynghorwyr. Byddai'r ddarpariaeth hon yn aneffeithiol ar gyfer penodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau'r cynghorau newydd gan y bydd mwy nag un cyngor sir neu fwrdeistref sirol wedi eu cynnwys ym mhob sir newydd.

51. Mae paragraff 1(1) o'r Atodlen yn darparu y bydd y swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau'r cynghorau newydd yn cael ei benodi gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i wneud y penodiad hwnnw (ni ddiddymir y siroedd presennol hyd nes 1 Ebrill 2020). Am yr un rhesymau, mae paragraff 1(4) yn darparu ar gyfer talu ac adennill gwariant y swyddogion canlyniadau.

52. Mae adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl gynghorwyr etholedig yn gwneud datganiad derbyn swydd y mae'n rhaid ei ddanfon at swyddog y cyngor a benodwyd at y diben hwnnw. Yn achos y cynghorau newydd, ni fydd y swyddog hwn wedi ei benodi ar adeg yr etholiadau hynny.

53. Mae paragraff 2 yn darparu bod y datganiadau derbyn swydd i'w cymryd a'u danfon at brif weithredwr cyngor a ddynodwyd gan y pwyllgor pontio perthnasol (fel a ddiffinnir ym mharagraff 6 o Atodlen 2). Bydd pwyllgor pontio yn cael ei sefydlu ar gyfer bob sir newydd yn rhinwedd rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 11 o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015. Cânt eu sefydlu i ymgymryd â gweithgareddau penodol i baratoi a chynllunio ar gyfer sefydlu'r cynghorau newydd.

54. Mae paragraffau 3 a 4 yn mynd i'r afael â'r ffaith na fydd gan y cynghorau newydd y canlynol yn eu lle ar gyfer y cyfarfod cyntaf sy'n dilyn yr etholiadau cyffredin ym Mai 2019:
   - swyddogion i gynnull y cyfarfod;
   - swyddogion i arfer unrhyw swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â'r cyfarfod;
   - cynghorydd wedi ei ethol i gadeirio'r cyfarfod; a
   - rheolau sefydlog i lywodraethu trafodion y cyfarfod cyntaf.

55. Mae rhai o'r amodau ar gyfer cymhwyso ar gyfer etholiad a dal swydd fel cynghorydd, a gynhwysir yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ddibynnol ar fodolaeth sir newydd am 12 mis cyn yr etholiad. Gan nad dyma fydd yr achos mewn perthynas â'r siroedd newydd, mae paragraff 5 yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol i adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn perthynas ag etholiadau cyntaf y cynghorau newydd.

56. Mae paragraff 3(4) o Atodlen 2 yn cydnabod yr angen i ddiweddaru'r gofynion (a nodir ar hyn o bryd yn Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ar gyfer cyfleu cyfathrebiadau swyddogol drwy gyfrwng gwahanol i'r post. Felly, os yw aelod o gyngor newydd yn darparu cyfeiriad e-bost i'r prif weithredwr dynodedig cyn i'r wŷs i fynychu'r cyfarfod gael ei hanfon, caiff y prif weithredwr dynodedig anfon y wŷs at yr aelod drwy ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd. Os na darperir cyfeiriad e-bost, mae'r wŷs i gael ei hanfon drwy'r post neu ei gadael ym mhreswylfa arferol yr aelod (gweler paragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

**Adran 15 - Cynghorau newydd: awdurdodau cysgodol**

57. Mae'r adran hon yn darparu mai 'awdurdodau cysgodol' fydd y cynghorau newydd a etholir ar 2 Mai 2019, yn gweithredu ochr yn ochr â'r cynghorau presennol hyd nes y trosglwyddir yr holl swyddogaethau llywodraeth leol i'r cyngor newydd ar 1 Ebrill 2020.

58. Yn ystod y cyfnod a fydd yn dechrau ag etholiadau'r cynghorau newydd ym Mai 2019 ac yn gorffen ar 1 Ebrill 2020, swyddogaethau'r awdurdodau cysgodol fydd y rhai hynny a ragnodir ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru), rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil hwnnw a'r Bil Drafft hwn. Bydd y swyddogaethau hyn yn galluogi'r awdurdodau cysgodol i wneud penderfyniadau allweddol er mwyn eu galluogi i weithredu'n effeithiol o 1 Ebrill 2020. Bydd y rhain yn cynnwys penodi staff uwch ar gyfer y cyngor newydd, cytuno ar gynlluniau darparu gwasanaeth cychwynnol a gosod y gyllideb a lefel y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf y cyngor newydd. Mae adran 28 o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau cysgodol mewn perthynas â datganiadau polisi tâl.

**Adran 16 ac Atodlen 3 – Cynghorau newydd: cyllid**

59. Mae adran 16 yn cyflwyno Atodlen 3.

60. Mae paragraff 1 o Atodlen 3 yn rhoi swyddogaethau cyllid llywodraeth leol i'r cynghorau newydd. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cyfrifo cyllidebau cynghorau, sy'n dilyn y gweithdrefnau hir sefydledig a nodir yn adran 32 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

61. Bydd paragraff 1(1) yn gymwys i'r cynghorau newydd o ddyddiad eu hethol ym mis Mai 2019. Bydd hyn yn galluogi'r cynghorau newydd i arfer unrhyw swyddogaethau angenrheidiol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er enghraifft, bydd y cynghorau newydd, tra eu bod ar ffurf awdurdodau cysgodol rhwng mis Mai 2019 ac 1 Ebrill 2020, yn pennu'r gyllideb ac yn anfon biliau ar gyfer y dreth gyngor ac ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.

62. Mae rhestrau prisio yn darparu gwybodaeth i gynghorau am yr eiddo domestig yn eu hardaloedd er mwyn eu galluogi i godi taliadau treth gyngor. Mae rhestrau prisio yn cael eu cynnal gan swyddogion rhestru. Mae paragraff 2 yn mewnosod darpariaeth yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n amlinellu'r broses ar gyfer cyfuno'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes sydd wedi ei chynnwys yn y rhestrau prisio cyfredol (a ddiffinnir yn adran 22C(13) a fewnosodwyd) i greu rhestr 'gyfunedig' ar gyfer pob sir newydd.

63. Nid yw'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i newid yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y rhestrau prisio cyfredol. Gan hynny, bydd yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y rhestrau prisio cyfunedig yn gyson â'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y rhestrau prisio a luniwyd ar 1 Ebrill 2005 (sef y tro blaenorol y cynhaliwyd proses ailbrisio yng Nghymru o dan adran 22B(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992) ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol a wnaed i'r rhestr o dan y Ddeddf honno. Mae'r ddarpariaeth a fewnosodir gan baragraff 2 hefyd yn cydnabod y posibilrwydd y caniateir i broses ailbrisio ddigwydd cyn 1 Ebrill 2020 os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau yn adran 22B(3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Os bydd rhestrau prisio newydd yn cael eu llunio, bydd y rhestrau cyfunedig yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y rhestrau newydd hynny.

64. Mae rhestrau ardrethu annomestig lleol yn darparu gwybodaeth i gynghorau am eiddo annomestig (busnes) yn eu hardaloedd er mwyn eu galluogi i godi taliadau ardrethu

annomestig. Mae rhestrau ardrethu annomestig lleol yn cael eu cynnal gan swyddogion prisio. Mae paragraff 3 yn mewnosod darpariaeth yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n amlinellu'r broses ar gyfer cyfuno rhestrau ardrethu annomestig lleol i greu rhestr gyfunedig ar gyfer pob sir newydd. Bydd y rhestr gyfunedig yn cynnwys yr wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys yn y rhestrau ardrethu annomestig lleol a lunnir ar 1 Ebrill 2017 (ynghyd ag unrhyw newidiadau dilynol a wneir i'r rhestrau hynny o dan ddarpariaethau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988). Fel yn achos y rhestrau prisio ar gyfer y dreth gyngor ym mharagraff 2, mae'r ddarpariaeth a fewnosodir gan baragraff 3 yn cydnabod y posibilrwydd y gallai Gweinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 54A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i ohirio'r broses o lunio'r rhestrau newydd o 1 Ebrill 2017 tan flwyddyn yn ddiweddarach.

65. Rhaid i bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru gynnal cronfa gyngor y mae'n rhaid i'r holl wariant refeniw cyffredinol gael ei dalu ohoni, a rhaid talu'r holl refeniw a geir gan y cyngor iddi.

66. Mae paragraff 4 yn sicrhau bod y cynghorau newydd yn sefydlu cronfa gyngor o 1 Ebrill 2020 ac yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r gofynion cyfrifyddu mewn cysylltiad â'r gronfa.

67. Mae paragraffau 4(10) a 4(11) yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n manylu ar y broses ar gyfer praeseptio. Y praesept yw gofyniad treth gyngor ‘awdurdod praeseptio’, sy'n cael ei gasglu drwy fil treth y cyngor sir ac yna'n cael ei drosglwyddo i'r awdurdod praeseptio. Y praesept yw'r swm o gyllid sy'n ofynnol gan yr awdurdod praeseptio i ariannu ei ofyniad cyllidebol ar ôl caniatáu ar gyfer cyllid o ffynonellau eraill megis incwm o ffioedd a thaliadau, cyllid grant a chyllid o gronfeydd wrth gefn.

68. Mae awdurdodau praeseptio wedi eu diffinio naill ai yn brif awdurdodau praeseptio neu'n awdurdodau praeseptio lleol. Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae adran 39(1) yn darparu mai'r unig brif gyrff praeseptio yw comisiynwyr yr heddlu a throseddu, ac mae adran 39(2) yn darparu mai'r unig gyrff praeseptio lleol yw cynghorau cymuned.

69. Mae'r Rheoliadau o dan baragraff 4(10) ac (11) yn darparu'r weithdrefn a ddefnyddir gan gyngor newydd i anfon biliau a chasglu symiau'r dreth gyngor ar ran awdurdodau praeseptio, fel y'u diffinnir gan baragraff 4(13) yn brif awdurdodau praeseptio ac awdurdodau praeseptio lleol (gweler adran 39(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992). Y rheoliadau sy'n gymwys ar hyn o bryd i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol mewn cysylltiad â phraeseptau yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995.

**Adran 17 - Trosglwyddo swyddogaethau: cymhwyso deddfwriaeth arall mewn perthynas â chynghorau newydd**

70. Mae'r adran hon yn darparu o 1 Ebrill 2020 bod holl swyddogaethau'r cynghorau a ddiddymir ar y dyddiad hwnnw wedi eu trosglwyddo i'r cynghorau newydd. O'r dyddiad hwnnw mae pob cyfeiriad at siroedd a bwrdeistrefi sirol i'w darllen fel cyfeiriad at y siroedd newydd, oni ddarperir yn benodol fel arall gan y Bil Drafft neu oddi tano.

**Adran 18 ac Atodlen 4– Trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau, a darpariaeth drosiannol arall**

71. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 4.

72. Mae adrannau 88 ac 89 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu ar gyfer llenwi lleoedd gwag achlysurol o ran swyddi cynghorwyr (h.y. is-etholiadau) a swyddi cadeiryddion ac is-gadeiryddion cynghorau. Mae paragraff 1 yn atal llenwi lleoedd gwag achlysurol o ran swyddi cynghorwyr ar ôl 31 Rhagfyr 2018 oherwydd y byddai'n ofynnol i unrhyw gynghorydd a etholir i lenwi lle gwag achlysurol ymddeol yn fuan wedi hynny ar 1 Ebrill 2020. Gan hynny, mae'r ddarpariaeth hon yn osgoi mynd i'r costau sy'n gysylltiedig ag is-etholiadau o'r fath i adlewyrchu'r cyfnod cyfyngedig y byddai cynghorwyr etholedig o'r fath yn eu swydd. Fodd bynnag, mae paragraff 1 yn darparu eithriad i'r rheol hon pan fo mwy na hanner y swyddi cynghorwyr mewn cyngor yn wag yn ystod y cyfnod hwn. Nod hyn yw osgoi sefyllfa lle bo nifer y cynghorwyr yn is na'r lefel y gellir disgwyl yn rhesymol i barhau i redeg cyngor effeithiol. Dim ond am fis olaf bodolaeth y cynghorau a ddiddymir y caiff llenwi lleoedd gwag achlysurol o ran swyddi cadeiryddion ac is-gadeiryddion ei atal.

73. Mae paragraff 2 yn egluro os yw enw sir newydd (fel y'i pennir mewn rheoliadau a wneir o dan baragraff 2(1) o Atodlen 1 neu fel y darperir ar ei gyfer drwy benderfyniad o dan adran 12) yr un enw ag enw ardal llywodraeth leol a oedd yn bodoli ar unrhyw adeg cyn 1 Ebrill 2020, rhaid peidio â darllen unrhyw gyfeiriadau sy'n defnyddio'r enw hwnnw mewn deddfwriaeth cyn y Bil Drafft hwn fel cyfeiriad at y sir newydd. Nod hyn yw sicrhau nad yw unrhyw ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cyfeirio at sir wrth ei henw yn gymwys drwy amryfusedd mewn perthynas â sir newydd. Pe bai'n cael ei ystyried yn briodol i gyfeiriadau o'r fath sy'n bodoli eisoes mewn deddfwriaeth fod yn gymwys i sir newydd o'r un enw, darperir ar gyfer hynny drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 19.

74. Mae tri Awdurdod Tân ac Achub cyfunedig yng Nghymru sy'n cynnwys y 22 sir a bwrdeistref sirol sy'n bodoli eisoes. Crëwyd yr awdurdodau hyn drwy orchmynion cyfuno a wnaed o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947. O dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu gorchmynion cyfuno. Fodd bynnag, os nad yw'r awdurdod tân ac achub perthnasol neu'r sir neu'r fwrdeistref sirol y mae'r newid i'r gorchymyn cyfuno yn effeithio arnynt yn cytuno i'r newid, rhaid i Weinidogion Cymru achosi i ymchwiliad gael ei gynnal i'r amrywiad arfaethedig. Mae paragraff 3 yn atal y gofyniad i gynnal ymchwiliad i ddirymu neu ddiwygio gorchymyn cyfuno Tân ac Achub pan ddaw'r newidiadau arfaethedig o ganlyniad i newidiadau i ardaloedd awdurdodau lleol a wneir gan y Bil Drafft hwn neu oddi tano.

75. Bydd trosglwyddo staff o'r cynghorau a ddiddymir i gynghorau newydd o dan y Bil Drafft neu yn rhinwedd y Bil Drafft yn ddarostyngedig i Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ('Rheoliadau TUPE'), ac eithrio rheoliadau 4(6) a 10.

76. Mae eithrio rheoliad 4(6) yn golygu y bydd atebolrwydd cyngor a ddiddymir i gael ei erlyn, ei euogfarnu a'i ddedfrydu am unrhyw drosedd yn cael ei drosglwyddo i'r cyngor newydd. Heb y ddarpariaeth hon, byddai unrhyw atebolrwydd troseddol ar ran cyngor a ddiddymir o dan gontractau cyflogaeth a drosglwyddir i'r cyngor newydd, neu mewn cysylltiad â'r contractau hynny, yn diflannu ar 1 Ebrill 2020 pan ddiddymir y cynghorau. Mae eithrio rheoliad 10 yn diogelu hawliau pensiwn galwedigaethol staff a drosglwyddir o dan y Bil Drafft neu yn rhinwedd y Bil Drafft. Heb y ddarpariaeth hon, ni fyddai

rhwymedigaeth gyfreithiol ar y siroedd newydd i barchu hawliau, dyletswyddau neu rwymedigaethau pensiwn o dan gontractau cyflogaeth sy'n bodoli eisoes.

77. Mae paragraff 6 yn darparu ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau (gan gynnwys rhwymedigaethau troseddol) cynghorau a ddiddymir i'r cynghorau newydd o 1 Ebrill 2020. Mae hyn yn cynnwys unrhyw eiddo a ddelir at ddibenion elusennol gan gyngor a ddiddymir fel ymddiriedolwr, neu unrhyw hawliau neu rwymedigaethau mewn perthynas ag eiddo o'r fath. Gan hynny, mae paragraff 6 yn diogelu'r contractau, y cytundebau neu'r trefniadau sy'n bodoli eisoes sydd ar waith mewn perthynas â chynghorau a ddiddymir ar 1 Ebrill 2020, a bydd y cynghorau newydd wedi eu rhwymo ganddynt.

78. Mae'r trosglwyddiadau yr ymdrinnir â hwy ym mharagraffau 5 i 7 yn symud yr hawliau a'r rhwymedigaethau etc. o'r cynghorau a ddiddymir i'r cyngor newydd ar gyfer yr ardal sy'n cynnwys ardal y cyngor a ddiddymir dan sylw.

**Adran 19 - Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, etc.**

79. Mae adran 19 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, fel y maent yn ystyried eu bod yn briodol, er mwyn diddymu'r siroedd a'r bwrdeistrefi sirol sy'n bodoli eisoes a'u cynghorau, sefydlu'r cynghorau newydd a hwyluso trosglwyddo swyddogaethau yn ddidrafferth ac yn effeithiol i'r cynghorau newydd hynny. Caiff hyn gynnwys datgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud â throsglwyddo staff neu eiddo, hawliau a rhwymedigaethau lle byddai cymhwyso'r darpariaethau diofyn ym mharagraffau 5 a 6 o Atodlen 4 yn amhriodol. Er enghraifft, mewn cysylltiad â chyflogai sy'n gweithio mewn perthynas â chyd-bwyllgor a sefydlwyd gan nifer o gynghorau a ddiddymir (o dan adran 101(5)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972), byddai cyflogai o'r fath wedi ei gyflogi gan un cyngor a ddiddymir, ond caiff trefniadau fod ar waith ar gyfer rhannu taliadau cydnabyddiaeth y cyflogai hwnnw. Caiff y cynghorau a ddiddymir gytuno y dylai'r cyflogai dan sylw gael ei drosglwyddo i gyngor newydd sy'n wahanol i'r un y darperir ar ei gyfer o dan baragraff 5 o Atodlen 4 i'r Bil Drafft hwn. Byddai adran 19(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i adlewyrchu trefniant lleol o'r fath. Gallai rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ar gyfer ymddiriedolwyr siarter, er mwyn hwyluso cadw statws dinasoedd a bwrdeistrefi hanesyddol ynghyd â'r ddarpariaeth gysylltiedig o ran gweithrediad ymddiriedolwyr siarter.

**Adran 20 – Diwygiadau i'r dyddiadau a bennir mewn Deddfau penodol**

80. Mae'r Bil Drafft hwn a Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ill dau yn cynnwys darpariaethau sydd wedi eu cysylltu'n ddatganedig ag 1 Ebrill 2020, sef y dyddiad y trosglwyddir holl swyddogaethau llywodraeth leol i'r cynghorau newydd ac y daw bodolaeth y cynghorau a ddiddymir i ben.

81. Mae Adran 20 yn darparu, os penderfynir y dylid gohirio'r dyddiad hwnnw, y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio'r holl ddarpariaethau perthnasol i bennu dyddiad newydd.

**Adran 21 - Cymhwysiad Deddf 1972 i'r cynghorau sir yn Atodlen 1**

82. Mae adran 21(1) yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhai o'r prif ddiwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n deillio o ganlyniad i sefydlu cynghorau newydd.

83. Mae Rhan 1 o Atodlen 5 yn gwneud diwygiadau i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n deillio o'r ddarpariaeth a wneir yn y Rhan hon.

84. Ganlyniad i ddiwygio llywodraeth leol o dan Ran 1 o'r Bil Drafft mae'n ofynnol gwneud trefniadau trosiannol mewn cysylltiad ag amseriad etholiadau llywodraeth leol a chyfnodau swyddi cynghorwyr rhwng 2017 a 2023.

85. Fel y nodir uchod, yn unol ag adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bydd etholiadau llywodraeth leol ym mhob sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru yn 2017. Nid yw'r Bil Drafft yn effeithio ar sefydlu sir Powys a'i chyngor, nac yn effeithio ar barhad bodolaeth cyngor a sir Powys (gweler 1(6)).

86. Mae adran 14 o'r Bil Drafft yn cael yr effaith nad yw'r darpariaethau am etholiadau arferol cyntaf y "cynghorau newydd" yn gymwys i Bowys. Bydd adran 10(2) o'r Bil Drafft yn gymwys i Bowys, felly cynhelir etholiadau nesaf cynghorwyr Powys yn 2023. Fodd bynnag, mae paragraff 9 o Atodlen 5 yn darparu ar gyfer cynnal etholiadau cynghorwyr sir ym Mhowys yn 2020. Mae hefyd yn darparu mai tair blynedd fydd cyfnodau swyddi cynghorwyr a etholir ym Mhowys yn 2017 a 2020 er mwyn adlewyrchu amseriad etholiadau yn y sir honno.

87. Mae paragraff 10 yn gwneud newidiadau i gyfnodau swyddi cynghorwyr a etholir i'r cynghorau a ddiddymir yn 2017 a'r cynghorau newydd yn 2023. Bydd cyfnodau swyddi cynghorwyr a etholir yn etholiadau 2017 i'r cynghorau a ddiddymir yn para am dair blynedd, a chyfnodau swyddi cynghorwyr a etholir yn etholiadau 2023 yn para am bedair blynedd. Mae hyn er mwyn adlewyrchu amseriad yr etholiadau a'r dyddiad y daw bodolaeth y cynghorau a ddiddymir i ben.

88. Mae'r diwygiadau i adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sydd wedi eu cynnwys ym mharagraff 11 yn datgymhwyso'r adrannau hyn o ran Cymru, ac felly'n dileu pŵer Gweinidogion Cymru i bennu, drwy orchmynion, gynlluniau ar gyfer etholiadau cyffredin cynghorwyr rhannol (h.y. fesul hanner neu draean).

## *Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol*

### Adran 23 - Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol

89. Mae adran 23 yn darparu pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol cymwys yng Nghymru. Defnyddir y term 'pŵer cyffredinol' yn y nodiadau hyn drwyddynt draw i gyfeirio at y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

90. Mae awdurdodau lleol wedi dadlau ers amser maith eu bod yn cael eu rhwystro rhag gwneud pethau penodol oherwydd bod y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gymwys iddynt yn rhy gyfyng. Er enghraifft, cyn cyflwyno pŵer cyffredinol yn Lloegr, sefydlodd rhai bwrdeistrefi yn Llundain gwmni yswiriant cydfuddiannol fel ffordd o leihau eu costau yswiriant. Ymhlith pwerau eraill, ceisiasant ddibynnu ar y pŵer llesiant o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2000 i sefydlu'r cwmni yswiriant cydfuddiannol, gan ddadlau eu bod yn gweithredu er budd pobl leol oherwydd pe gallent arbed arian ar yswiriant, byddai ganddynt ragor o arian i'w wario ar wasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, penderfynodd y llysoedd nad oedd y pwerau yr oeddent yn ceisio dibynnu arnynt yn eu darparu â'r awdurdod cyfreithiol angenrheidiol i weithredu yn y ffordd hon. Byddai gweithredoedd yr awdurdodau, fodd bynnag, wedi bod o fewn cylch gwaith pŵer cyffredinol.

91. Mae'r pŵer cyffredinol yn rhoi i awdurdodau lleol cymwys yr un pŵer i weithredu ag sydd gan unigolyn yn gyffredinol, sydd felly yn eu galluogi i weithredu mewn ffyrdd

dyfeisgar, hynny yw, gwneud pethau nad ydynt yn debyg i rywbeth y maent hwy, neu unrhyw gorff cyhoeddus arall wedi ei wneud o'r blaen. Diffinnir 'unigolyn' yn is-adran (5) er mwyn osgoi cyfeirio at unigolyn a chanddo bwerau llai, er enghraifft, plentyn.

92. Mae is-adrannau (2) a (3) yn diffinio ymhellach rychwant y pŵer cyffredinol. Nid yw'n angenrheidiol i weithgareddau yr ymgymerir â hwy drwy ddefnyddio'r pŵer cyffredinol fod o fudd i'r awdurdod lleol cymwys ei hun, ei ardal neu drigolion, fodd bynnag, nid oes cyfyngiad ar weithgareddau sy'n gwneud hynny. Felly, caiff awdurdodau lleol cymwys ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i, er enghraifft:
- gweithredu yn ôl eu buddiannau ariannol eu hunain;
- ymgymryd â gweithgareddau masnachol am ffi, neu heb godi ffi;
- ymgymryd â gweithgareddau yn unrhyw le, hynny yw, yng Nghymru neu y tu allan i Gymru.

93. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol cymwys sydd ar y ffin â Lloegr benderfynu y dylid rhoi afal ffres i bob plentyn ysgol yn ei ardal bob dydd. Nid oes digon o berllannau yn ei ardal ei hun i ddarparu pob plentyn ag afal felly mae'r awdurdod cymwys yn penderfynu prynu perllan yn y swydd Seisnig gyfagos gan ddefnyddio'r pŵer cyffredinol. Mae'r berllan yn ddigon mawr i ddarparu afalau i'r holl blant yn ei ardal, ac i werthu rhai i wneud elw, y gall yr awdurdod lleol cymwys ei ailfuddsoddi wedyn mewn gwasanaethau.

94. Mae is-adran (4) yn diffinio awdurdod lleol cymwys fel cyngor sir yng Nghymru neu gyngor cymuned â chymhwysedd (gweler adran 31 am fanylion ynghylch sut y caiff cyngor cymuned ddod yn gyngor cymuned â chymhwysedd).

95. Bwriedir bod y pŵer cyffredinol yn bŵer ehangach na'r pŵer llesiant a ddarparwyd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. Felly mae adran 28 o'r Bil Drafft hwn yn diddymu pob adran yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â'r pŵer llesiant.

96. Mae adran 183 yn dod â Rhan 2 (pŵer cymhwysedd cyffredinol) i rym ddau fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Effaith adran 180 yw, cyn 1 Ebrill 2020, y bydd unrhyw gyfeiriad at 'cyngor sir' yn cael ei ddarllen fel y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol a sefydlwyd o 1 Ebrill 1996 ymlaen (gweler adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1996). Ond o 1 Ebrill 2020 ymlaen, bydd unrhyw gyfeiriad at 'cyngor sir' yn golygu'r cynghorau sir hynny a nodir yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft hwn.

97. Mae arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau y darperir ar eu cyfer yn adrannau 24 i 26 ac unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 27(3) neu (4).

## Adran 24 – Terfynau'r pŵer cyffredinol

98. Mae adran 24 yn amlinellu terfynau'r pŵer cyffredinol.

99. Nid yw'r pŵer cyffredinol yn galluogi awdurdodau lleol cymwys i osgoi gwaharddiadau neu gyfyngiadau yn y ddeddfwriaeth bresennol (hynny yw, darpariaethau deddfwriaethol sydd mewn grym cyn y flwyddyn y caiff y Bil Drafft hwn ei basio, neu sydd yn dod i rym yn ystod y flwyddyn honno).

100. Nid yw'r pŵer cyffredinol ychwaith yn galluogi awdurdodau lleol cymwys i osgoi gwaharddiadau neu gyfyngiadau mewn unrhyw ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar ôl y

flwyddyn y caiff y Bil Drafft hwn ei basio, os yw'r ddeddfwriaeth honno yn datgan ei bod yn gymwys:

- i'r pŵer cyffredinol;
- i holl bwerau'r awdurdod lleol cymwys; neu
- i holl bwerau'r awdurdod lleol cymwys ac eithrio pwerau penodol, ac ni restrir y pŵer cyffredinol fel un o'r pwerau a eithrir.

101. Mae is-adran (3) yn atal awdurdod lleol cymwys rhag defnyddio'r pŵer cyffredinol i ddirprwyo neu gontractio allan unrhyw un o'i swyddogaethau neu newid ei drefniadau llywodraethu. Mae'r materion hyn yn parhau'n ddarostyngedig i ddarpariaeth statudol ar wahân.

### Adran 25 - Cyfyngiadau ar godi ffi wrth arfer pŵer cyffredinol

102. Mae adran 25 yn cyfyngu ar allu awdurdod lleol cymwys i godi ffi am ddarparu gwasanaeth i berson wrth arfer y pŵer cyffredinol. Mae'n darparu, pan fo awdurdod lleol cymwys yn defnyddio'r pŵer cyffredinol i ddarparu gwasanaeth, na chaiff godi ffi am y gwasanaeth hwnnw ond:

- os yw'r gwasanaeth hwnnw'n ddewisol, hynny yw, nid yw'r gwasanaeth yn un y mae gofyniad statudol arno i'w ddarparu; ac
- os yw'r derbynnydd wedi cytuno i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.

103. Er enghraifft, mae cynghorau sir o dan ddyletswydd statudol i gasglu ysbwriel tŷ. Fel rhan o'r gwasanaeth casglu cânt ei gwneud yn ofynnol bod ysbwriel yn cael ei ddidoli'n fathau gwahanol a roir mewn biniau o liwiau gwahanol etc., ond ni chaniateir iddynt godi ffi am y gwasanaeth casglu'r ysbwriel. Fodd bynnag, pe byddai cyngor yn dymuno cynnig gwasanaeth ychwanegol, er enghraifft, pan fo'n didoli'r ysbwriel ar ran aelwyd, gellid cynnig y gwasanaeth hwn fel gwasanaeth dewisol, y caniateir codi ffi am ei ddarparu.

104. Ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir at ddiben masnachol, mae is-adran (4) yn atal awdurdod lleol cymwys rhag gwneud elw yn unrhyw flwyddyn ariannol pan fo'n defnyddio'r pŵer cyffredinol i godi ffi am ddarparu gwasanaeth. Fodd bynnag, o fewn y cyfyngiad o beidio â gwneud elw, mae is-adran (6) yn galluogi awdurdod lleol cymwys i bennu ffioedd fel y gwêl yn dda, gan gynnwys codi ffi ar rai personau yn unig am y gwasanaeth neu godi symiau gwahanol ar bersonau gwahanol neu grwpiau gwahanol.

### Adran 26 - Cyfyngiad ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer pŵer cyffredinol

105. Mae'r adran hon yn gwahardd awdurdod lleol cymwys rhag defnyddio'r pŵer cyffredinol i ymgymryd â gweithgaredd at ddiben masnachol, oni bai bod y gweithgaredd yn un y gallai'r awdurdod hefyd ei wneud at ddiben anfasnachol.

106. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol redeg canolfan ailgylchu, at ddiben anfasnachol, i ddelio â'r gwastraff a gesglir gan ei wasanaeth ysbwriel. Fodd bynnag, petai'r ganolfan ailgylchu yn gallu trin mwy nag ysbwriel yr awdurdod lleol yn unig, gallai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i werthu gwasanaethau ailgylchu i awdurdodau cyfagos neu sefydliadau eraill, gan gynnwys cwmnïau preifat. Yn yr achos hwn, gallai wneud elw (ond byddai'n rhaid iddo sefydlu cwmni i wneud hyn, fel y trafodir isod).

107. Effaith is-adran (3) yw na all awdurdod lleol cymwys ymgymryd â gweithgaredd mewn perthynas â rhywun at ddiben masnachol, os yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol

i'r awdurdod wneud y gweithgaredd hwnnw. Er enghraifft, mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ddarparu ysgolion fel y gall plant yn eu hardaloedd gael addysg am ddim, ac ni allent ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i geisio codi ffioedd ysgol mewn perthynas â phlant yr oedd ganddynt hawl i gael addysg am ddim.

108. Hefyd, os yw awdurdod lleol cymwys yn dymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol i wneud rhywbeth at ddiben masnachol, rhaid iddo wneud hynny drwy gwmni, fel y'i diffinnir yn adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu gymdeithas gofrestredig fel y'i diffinnir yn Neddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, neu gymdeithas a gofrestrwyd neu y tybir ei bod wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969.

**Adran 27 - Pŵer i wneud darpariaeth atodol**

109. Mae adran 27 yn darparu pŵer ar gyfer Gweinidogion Cymru (yn is-adran (1)) i wneud rheoliadau sy'n diddymu neu’n newid darpariaethau statudol y maent o'r farn eu bod yn atal neu’n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol cymwys i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol.

110. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n dileu'r gorgyffwrdd rhwng y pŵer cyffredinol a phwerau eraill (er mai effaith is-adran (9)(a) yw na allant gyflawni hyn drwy ddiwygio neu gyfyngu ar y pŵer cyffredinol ei hun).

111. Mae is-adrannau (3) a (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfyngu ar yr hyn y caiff awdurdod lleol cymwys ei wneud o dan y pŵer cyffredinol, neu wneud defnydd ohono'n ddarostyngedig i amodau.

112. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 27 o ran pob awdurdod lleol cymwys, awdurdodau penodol sy'n awdurdodau lleol cymwys, neu fath penodol o awdurdod lleol sy'n awdurdod lleol cymwys.

113. Effaith is-adrannau (6) a (7) yw bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn arfer unrhyw un o'r pwerau hyn, ymgynghori â pha bynnag awdurdodau lleol cymwys y maent yn ystyried eu bod yn briodol, unrhyw gynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru y maent yn ystyried eu bod yn briodol ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

114. Nid yw'r dyletswydd i ymgynghori yn gymwys yn achos unrhyw reoliadau sy’n diwygio rheoliadau cynharach yn unig er mwyn:

- estyn eu cymhwysiad i awdurdod lleol cymwys penodol neu grŵp o awdurdodau lleol cymwys;
- lleihau eu cymhwysiad fel eu bod yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod lleol cymwys penodol neu grŵp o awdurdodau lleol cymwys.

**Adran 28 - Pŵer cymhwysedd cyffredinol: diddymu pwerau awdurdod lleol o ran hybu llesiant**

115. Mae'r adran hon yn diddymu'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â’r pŵer llesiant fel y mae'n gymwys o ran Cymru, ac yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddileu cyfeiriadau yn y Ddeddf honno at y darpariaethau hynny yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

**Adran 29 - Pŵer cymhwysedd cyffredinol: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill**

116. dan adran 29 mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 wedi ei diwygio er mwyn datgymhwyso darpariaethau adran 137 (pŵer awdurdodau lleol i wario at ddibenion penodol nas awdurdodwyd fel arall) i gynghorau cymuned â chymhwysedd. Ni chaiff cynghorau cymuned â chymhwysedd ddefnyddio adran 137 mwyach i fynd i gostau; yn lle hynny byddant yn defnyddio'r pŵer cyffredinol.

117. Mae is-adrannau (4), (5) a (6) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

**Adran 31 - Cynghorau cymuned â chymhwysedd**

118. Mae adran 31 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i gyngor cymuned eu cyflawni, a'r weithdrefn y mae'n rhaid iddo ei dilyn, er mwyn dod yn 'cyngor cymuned â chymhwysedd'. Mae dod yn gyngor cymuned â chymhwysedd yn galluogi cyngor i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol y darperir ar ei gyfer ym Mhennod 1 o'r Rhan hon.

119. Mae is-adran (1) yn darparu, er mwyn dod yn gyngor cymuned â chymhwysedd, fod rhaid i gyngor basio cynnig ei fod yn cyflawni'r gofynion cymhwysedd i gyd a'i fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

120. Nodir y tri gofyniad cymhwysedd yn is-adran (2).

121. Y gofyniad cyntaf yw rhaid bod o leiaf ddwy ran o dair o aelodau'r cyngor cymuned wedi cael eu datgan fel rhai sydd wedi eu hethol. Ystyr hyn yw rhaid eu bod wedi ymgeisio am gael eu hethol mewn etholiad cyffredin neu is-etholiad, hyd yn oed os na wrthwynebwyd hwy, yn hytrach na chael eu cyfethol.

122. Yr ail ofyniad yw rhaid bod clerc y cyngor yn dal un o'r cymwysterau proffesiynol a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (5). Enghraifft o gymhwyster o'r fath sy'n debygol o gael ei bennu yw Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol, cymhwyster Lefel 3 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

123. Y gofyniad cymhwysedd olaf yw'r amod archwilio sy'n ymwneud â'r archwiliad blynyddol o gyfrifon cyngor cymuned.

124. Archwilir cyfrifon cyngor cymuned yn flynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu ar ei ran, a rhaid iddo ei fodloni ei hun o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ('Deddf 2004') ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys:
    - bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o Ddeddf 2004;
    - eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol (fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r cyfrifon a'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r cyfrifon ei chynnwys); a
    - bod arferion priodol wedi eu dilyn.

125. Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwnnw, mae'n ofynnol i'r Archwilydd, o dan adran 23 o Ddeddf 2004, roi ei farn.

126. Er mwyn cyflawni'r amod archwilio rhaid bod y cyngor wedi cael dwy farn archwilydd diamod am ddwy flynedd ariannol yn olynol, a rhaid bod y cyngor wedi cael yr un

ddiweddaraf ohonynt yn ystod y 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae cynnig y cyngor yn cael ei basio.

127. Mae is-adran (5) yn diffinio barn archwilydd diamod. Er mwyn i farn yr archwilydd fod yn ddiamod, ni all yr archwilydd fod wedi datgan yn y farn mewn unrhyw fodd nad yw'r archwilydd yn fodlon mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a nodir yn adran 17 o Ddeddf 2004.

**Adran 32 - Parhau i fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd neu beidio â bod yn gyngor o'r fath**

128. Unwaith bod cyngor cymuned wedi penderfynu ei fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd, cyhyd ag y mae'n parhau i fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd rhaid iddo basio cynnig ym mhob ‘cyfarfod blynyddol perthnasol’ wedi hynny. Dyma'r cyfarfod blynyddol a gynhelir mewn blwyddyn pan fo etholiad cyffredin o aelodau’r cyngor cymuned.

129. Yn y cyfarfod blynyddol perthnasol, caiff y cyngor benderfynu ei fod yn cyflawni'r gofynion cymhwysedd ac yn parhau i fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd; neu nad yw’n cyflawni'r gofynion cymhwysedd mwyach ac felly yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

130. Caiff cyngor hefyd benderfynu yn y cyfarfod blynyddol perthnasol ei fod yn parhau i gyflawni'r gofynion cymhwysedd ond yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd. Byddai hyn yn berthnasol pan, er gwaethaf cyflawni pob un o'r gofynion cymhwysedd, na fyddai’r cyngor cymuned yn dymuno bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd mwyach.

131. Os bydd cyngor cymuned â chymhwysedd y methu â phasio cynnig yn y cyfarfod blynyddol perthnasol, bydd yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd ar ddiwrnod y cyfarfod y dylai fod wedi pasio'r cynnig ynddo.

132. Yn ogystal, caiff cyngor cymuned â chymhwysedd benderfynu ar unrhyw adeg ei fod yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

**Adran 33 - Cynghorau cymuned sy'n peidio â bod yn gynghorau cymuned â chymhwysedd: pŵer cymhwysedd cyffredinol i barhau at ddibenion penodol**

133. Effaith adran 33 yw, os yw cyngor cymuned â chymhwysedd wedi dechrau gweithgaredd gan ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ac wedyn yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd, y caiff er hynny barhau i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

**Adran 34 – Pŵer i ddiwygio'r Rhan hon**

134. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (yn dilyn ymgynghoriad ag unrhyw gyrff sy'n cynrychioli cynghorau cymuned y maent yn ystyried eu bod yn briodol) i ddiwygio is-adran (2) o adran 31. Caniateir diwygio adran 31(2) er mwyn ychwanegu gofyniad cymhwysedd newydd, tynnu ymaith ofyniad cymhwysedd neu newid unrhyw un neu ragor o'r gofynion cymhwysedd.

135. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau i bennu amgylchiadau, ac eithrio'r rheini a bennir yn adran 32, pan fydd cyngor cymuned yn peidio â bod yn gyngor

cymuned â chymhwysedd os na chyflawnir unrhyw un neu ragor o'r gofynion cymhwysedd.

**Adran 35 - Canllawiau**

136. Rhaid i gynghorau cymuned, pa un ai 'â chymhwysedd' ai peidio, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, o dan yr adran hon, ynglŷn â sut i arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon.

137. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynglŷn â'r camau y gallai cyngor ystyried eu cymryd os cafwyd nad oedd yn cyflawni un o'r gofynion cymhwysedd neu faterion y dylai cyngor cymuned eu hystyried os bydd yn parhau i arfer y pŵer cyffredinol o dan adran 33 ar ôl peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

***Rhan 3 – Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol***

**Adran 37 – Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi mewn llywodraeth leol**

138. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir i annog pobl leol i gyfranogi wrth i'r cyngor wneud penderfyniadau, a chyfranogi wrth i unrhyw awdurdod cysylltiedig wneud penderfyniadau. Yn y naill achos a'r llall, mae 'gwneud penderfyniadau' yn cynnwys gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall.

139. Mae is-adran (3) yn rhestru'r awdurdodau 'cysylltiedig' â chyngor sir at ddibenion yr adran hon. Unrhyw gynghorau cymuned yn ardal y cyngor sir, unrhyw awdurdodau tân ac achub yn yr ardal honno ac unrhyw awdurdodau Parc Cenedlaethol y mae rhan o'u hardal o fewn yr ardal honno yw'r awdurdodau. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr a bennir yn is-adran (3).

140. Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at wneud penderfyniad yn cynnwys cyfeiriad at wneud penderfyniadau gan berson neu gorff sy'n cyflawni swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan gyngor sir neu awdurdod cysylltiedig. Felly, rhaid i gynghorau sir annog pobl leol i gyfranogi wrth i benderfyniadau dirprwyedig o'r fath gael eu gwneud.

141. Mae pa un a yw arfer swyddogaeth cyngor sir neu awdurdod cysylltiedig wedi ei ddirprwyo ai peidio yn dibynnu ar y swyddogaeth benodol (mae rhai swyddogaethau na ellir eu dirprwyo, ac yn yr achosion hynny bydd y ddeddfwriaeth sy'n creu'r swyddogaeth yn dweud hynny fel rheol), a'r trefniadau y mae cyngor neu awdurdod cysylltiedig wedi'u gwneud i'w dirprwyo. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd swyddogaethau wedi'u dirprwyo i bwyllgorau a swyddogion cynghorau ac awdurdodau cysylltiedig.

**Adran 38 – Strategaeth ar annog cyfranogiad**

142. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir lunio a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r dyletswyddau yn adran 37(1) a (2).

143. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd pob cyngor sir ymdrin â'r canlynol:

- dulliau o hybu ymwybyddiaeth pobl leol o swyddogaethau'r cyngor sir a swyddogaethau awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor sir;
- dulliau o hybu ymwybyddiaeth pobl leol o sut i ddod yn aelod o'r cyngor sir neu o awdurdod cysylltiedig, a'r hyn y mae bod yn aelod yn ei olygu;

- dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl leol gael gafael ar wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y cyngor neu gan awdurdodau cysylltiedig;
- dulliau o hybu a hwyluso prosesau lle gall pobl leol wneud sylwadau am benderfyniad i'r cyngor sir, neu awdurdodau cysylltiedig, cyn iddo gael ei wneud ac ar ôl hynny;
- trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben y ddyletswydd ar y cyngor o dan adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i wneud trefniadau sy'n galluogi pob unigolyn sy'n byw neu'n gweithio yn ardal y cyngor i dynnu sylw pwyllgor trosolwg a chraffu'r cyngor ar gyfer yr ardal at ei sylwadau ar unrhyw fater y mae'r pwyllgor hwnnw'n ei ystyried; a
- dulliau o hybu ymwybyddiaeth aelodau'r cyngor sir, ac aelodau o awdurdodau cysylltiedig, o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

144. Rhaid i gynghorau sir ystyried sut y byddant yn cysylltu â phobl leol. Dylai hynny gynnwys pawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal. Mae hyn felly'n cynnwys pobl sydd o dan 18 oed, yn ogystal ag oedolion. Caiff y cyngor sir hefyd ddewis cynnwys gwybodaeth ar y ffordd y mae'n bwriadu cydymffurfio â dyletswydd a osodir arno gan Ddeddf arall neu ddarpariaeth sydd yn y Bil Drafft hwn.

145. Pan fo cyngor yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet, mae is-adran (4) yn pennu bod unrhyw gyfeiriad at aelod o gyngor sir yn y rhestr yn is-adran (2) yn cynnwys cyfeiriad at faer etholedig y cyngor.

**Adran 39 – Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd: ymgynghori ac adolygu**

146. Bydd yn ofynnol i gyngor sir gyhoeddi ei strategaeth gyntaf ar gyfranogiad y cyhoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r adran hon ddod i rym. Wrth lunio'r strategaeth, rhaid i gynghorau sir ymgynghori â 'pobl leol' (fel y'u diffinnir yn adran 42) a phersonau arall y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

147. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi pryd y mae'n rhaid i gyngor sir adolygu ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd (sef cyn gynted â phosibl yn dilyn pob etholiad cyffredin cynghorwyr o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972), ac â phwy y mae'n rhaid ymgynghori yn ystod adolygiad o'r fath. Yn dilyn yr adolygiad mandadol hwn caiff cyngor sir ddiwygio ei strategaeth neu lunio un newydd.

148. Caiff cyngor sir gynnal adolygiadau ychwanegol o'i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd unrhyw bryd, fodd bynnag. Yna caiff cyngor sir ddiwygio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu lunio un newydd, ar yr amod ei fod wedi ymgynghori â'r personau perthnasol yn is-adran (5).

149. Mae'n ofynnol i gynghorau sir gyhoeddi unrhyw strategaeth cyfranogiad y cyhoedd newydd neu ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Adran 40 – Ymgynghori gan gynghorau sir mewn cysylltiad â gofynion cyllideb**

150. dan yr adran hon mae dyletswydd ar gynghorau sir i gymryd camau rhesymol i ymgynghori â'r personau a restrir yn is-adran (2) mewn cysylltiad â'r amcangyfrif o wariant y mae'n ofynnol i'r cyngor ei lunio o dan adran 32(2)(a) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992').

151. dan adran 32 o Ddeddf 1992, rhaid i gyngor sir gyfrifo ei gyllideb ofynnol er mwyn pennu ei dreth cyngor. Nid yw cyfrifiadau o gyllideb ofynnol y cyngor a wneir o dan yr adran honno yn annilys os yw'r cyngor yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgynghori o dan yr adran hon.

152. Nid yw'r cyfeiriad at gyfrifiadau yn is-adran (1) yn cynnwys cyfrifiadau dirprwyol a wneir o dan adran 37 o Ddeddf 1992. Cyfrifiadau dirprwyol yw pan fo cyngor, naill ai o'i wirfodd neu mewn ymateb i gapio gan Weinidogion Cymru (o dan Ran IVA o Ddeddf 1992), yn ailgyfrifo ei gyllideb ofynnol, fel sy'n ofynnol o dan adran 32 o Ddeddf 1992. Dim ond os yw'r gyllideb ofynnol ddiwygiedig yn is na'r gyllideb ofynnol wreiddiol y caiff y cyngor wneud cyfrifiad dirprwyol o'i wirfodd.

**Adran 41 – Canllawiau ynghylch arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon**

153. Mae adran 41 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i gynghorau sir ynglŷn â sut i arfer eu swyddogaethau o dan y Bennod hon (cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol). Mae'n ofynnol i gynghorau sir roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 43 – Dyletswydd ar gyngor sir i benodi pwyllgorau ardaloedd cymunedol**

154. Dan yr adran hon, rhaid i gyngor sir benodi pwyllgor, sydd i'w alw'n bwyllgor ardal gymunedol, ar gyfer pob 'ardal gymunedol' yn y sir.

155. Caiff ardaloedd cymunedol sir, o dan adran 37(5) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, eu diffinio naill ai gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y sir neu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. O dan adran 37(3) o'r Ddeddf honno, mae'n rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal (a fydd yn cynnwys un sir neu ragor) gynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant pob ardal gymunedol yn ei ardal yn ei asesiad o lesiant ei ardal.

156. Bydd pwyllgor ardal gymunedol yn cyflawni'r swyddogaethau a roddir neu a osodir arno gan neu o dan y Rhan hon o'r Bil Drafft a Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Adran 44 – Aelodau cyngor sir o bwyllgorau**

157. Dan yr adran hon mae'n ofynnol i aelodau'r pwyllgor gynnwys pob aelod o'r cyngor sir a etholwyd ar gyfer ward etholiadol yn ardal y pwyllgor; mae hyn yn cynnwys aelodau ar gyfer unrhyw wardiau etholiadol sy'n rhannol yn ardal y pwyllgor.

**Adran 45 – Aelodau cyngor cymuned o bwyllgorau**

158. Dan adran 45 mae'n ofynnol i gynghorau sir wahodd bob 'cyngor cymuned perthnasol' i enwebu un o'i aelodau i'w benodi'n aelod o'r pwyllgor ardal gymunedol.

159. Diffinnir 'cyngor cymuned perthnasol' fel unrhyw gyngor cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal y pwyllgor.

160. Rhaid i bob cyngor cymuned perthnasol naill ai enwebu un o'i aelodau ar gyfer ei benodi i'r pwyllgor neu ymuno â chyngor cymuned perthnasol arall i gyd-enwebu un o aelodau'r cyngor cymuned arall hwnnw ar gyfer ei benodi. Pan fo aelod o gyngor cymuned yn cynrychioli ward mewn cymuned, rhaid i'r ward fod yn gyfan gwbl yn ardal y pwyllgor, neu'n rhannol yn yr ardal honno.

161. Mae is-adran (5) yn caniatáu i gyngor sir benodi unrhyw un a enwebir mewn ymateb i wahoddiad a roddir o dan yr adran hon i fod yn 'aelod cyngor cymuned'.

**Adran 46 – Aelodau enwebedig o'r gymuned o bwyllgorau**

162. Dan yr adran hon rhaid i gyngor sir wahodd enwebiadau i fod yn aelod o'r pwyllgor gan o leiaf un corff sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus mewn perthynas â'r ardal gymunedol gyfan neu unrhyw ran ohoni (ond ni all y corff hwn fod yn gyngor cymuned). Rhaid i'r cyngor sir hefyd wahodd enwebiadau i fod yn aelod o'r pwyllgor gan o leiaf un corff gwirfoddol y mae ei weithgareddau o fudd i ardal y pwyllgor, neu i unrhyw ran o'r ardal honno.

163. Caiff y cyngor hefyd wahodd enwebiadau gan unrhyw gorff arall sydd â chysylltiad ag ardal y pwyllgor.

164. Mae is-adran (3) yn galluogi cyngor sir i benodi unrhyw un a enwebwyd mewn ymateb i wahoddiad a roddwyd o dan yr adran hon, i fod yn 'aelod enwebedig o'r gymuned', ond o dan is-adran (4), dim ond un aelod o bob corff a gaiff wasanaethu ar y pwyllgor ar unrhyw adeg.

165. Mae unrhyw berson sy'n aelod o gyngor sir, yn faer etholedig neu'n aelod o weithrediaeth awdurdod lleol wedi'i wahardd rhag bod yn aelod enwebedig o'r gymuned o'r pwyllgor.

**Adran 47 – Polisi ar gyfer penodiadau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol**

166. Dan yr adran hon mae'n ofynnol i gyngor sir amlinellu, mewn datganiad, y dull y mae'n bwriadu ei ddilyn i ddethol a phenodi aelodau cyngor cymuned ac aelodau enwebedig o'r gymuned i'w bwyllgorau ardal gymunedol. Y cyngor sir sydd i benderfynu ar ei ddull o ymdrin â'r materion hynny drosto'i hun.

167. Rhaid cyhoeddi'r datganiad a rhaid iddo bennu sawl aelod cyngor cymuned ac aelod enwebedig o'r gymuned y mae'n bwriadu ei benodi i bob un o'i bwyllgorau ardaloedd cymunedol. Caiff pob pwyllgor ardal gymunedol bennu nifer gwahanol o aelodau cyngor cymuned ac aelodau enwebedig o'r gymuned.

168. Wrth wahodd enwebiadau o dan adran 45 neu 46, rhaid i'r cyngor wneud hynny gyda golwg ar benodi'r nifer o aelodau cyngor cymuned ac aelodau enwebedig o'r gymuned a bennwyd ganddo yn ei ddatganiad.

169. Mae is-adran (4) yn darparu y bydd pwyllgor ardal gymunedol yn dal i fod wedi'i gyfansoddi'n briodol hyd yn oed os nad yw'n cynnwys y nifer o aelodau cyngor cymuned ac aelodau enwebedig o'r gymuned a bennwyd ganddo yn ei ddatganiad.

**Adran 48 –Cyfnod mewn swydd a therfynu aelodaeth**

170. Y cyngor sy'n gyfrifol am benderfynu am ba hyd y bydd aelod cyngor cymuned neu aelod enwebedig o'r gymuned yn gwasanaethu ar bwyllgor ardal gymunedol.

171. Bydd aelod o'r cyngor sir yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor ardal gymunedol os na fydd mwyach yn aelod etholedig ar gyfer ward etholiadol yn ardal y pwyllgor.

172. Ni fydd hyn yn gymwys os yw'r aelod yn peidio â bod yn aelod etholedig am ei fod yn ymddeol a'i fod yn cael ei ailethol i unrhyw ward etholiadol yn ardal y pwyllgor cyn dyddiad ei ymddeoliad neu ar y diwrnod hwnnw, sydd bedwar diwrnod ar ôl cynnal

etholiad cyffredin. Dyma'r diwrnod y mae'r unigolion hynny a oedd yn aelodau o'r cyngor yn union cyn yr etholiad yn 'ymddeol' a'r cynghorwyr sydd newydd eu hethol yn dechrau yn y swydd.

**Adran 49 – Trafodion pwyllgorau ardaloedd cymunedol**

173. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi cadeirydd a sefydlu is-bwyllgorau. Nid yw'n galluogi pwyllgor ardal gymunedol i benodi pobl nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor ardal gymunedol ar is-bwyllgorau o'r pwyllgor.

174. Mae gan bob aelod o bwyllgor ardal gymunedol neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

**Adran 50 – Cyfarfodydd pwyllgorau ardaloedd cymunedol: mynediad i gyfarfodydd a mynychu cyfarfodydd**

175. Mae adran 50 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarfodydd pwyllgor ardal gymunedol, neu unrhyw un o'i is-bwyllgorau, gael eu cynnal yn ardal y pwyllgor. Mae is-adran (2) yn darparu nad yw methiant i gynnal cyfarfod o'r pwyllgor (neu'r is-bwyllgor) yn ardal y pwyllgor yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth y mae'r pwyllgor (neu'r is-bwyllgor) yn ei wneud yn y cyfarfod hwnnw.

176. Caiff pwyllgor ardal gymunedol, neu is-bwyllgor iddo, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw swyddog o'r cyngor sir ddod i gyfarfod o'r pwyllgor i ateb cwestiynau'r pwyllgor. Caiff pwyllgor ardal gymunedol, neu is-bwyllgor iddo, wahodd pobl eraill i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor neu is-bwyllgor iddo. Mae is-adran (5) yn darparu nad oes rheidrwydd ar y swyddog i ateb cwestiwn, pe byddai hawl ganddo i wrthod ateb y cwestiwn hwnnw mewn achos llys yng Nghymru a Lloegr, neu at ddibenion achos o'r fath.

177. Mae is-adran (6) yn darparu bod pwyllgor ardal gymunedol, neu is-bwyllgor iddo, yn bwyllgor, neu'n is-bwyllgor, i'r cyngor sir at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (mynediad i gyfarfodydd a chofnodion neu ddogfennau). Mae hyn yn sicrhau bod darpariaethau a gofynion penodol, sy'n ymwneud â mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd, a'r cofnodion neu'r dogfennau sy'n cael eu llunio ar gyfer y cyfarfodydd hynny, hefyd yn gymwys i gyfarfodydd pwyllgorau ardaloedd cymunedol.

**Adran 51 – Trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd**

178. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y pwyllgor ardal gymunedol i wneud trefniadau i hysbysu pobl leol amdano ac am y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau.

179. Rhaid i'r cyngor sir wneud trefniadau i ganiatáu i bobl leol gyflwyno eu safbwyntiau i'r pwyllgor ar gyfer eu hardal, ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'i swyddogaethau. Rhaid i'r pwyllgor ystyried y safbwyntiau hynny wrth arfer y swyddogaethau hynny.

**Adran 52 - Dyletswydd ar bwyllgor ardal gymunedol i lunio datganiad o flaenoriaethau ac amcanion**

180. Dan yr adran hon rhaid i bwyllgor ardal gymunedol lunio, cyflwyno i'r cyngor a chyhoeddi datganiad o flaenoriaethau ac amcanion. Rhaid gwneud hyn o fewn y 6 mis sy'n dilyn etholiad cyffredin y cyngor sir.

181. Yn y datganiad, rhaid i'r pwyllgor nodi'r hyn y mae'n ystyried ddylai fod yn flaenoriaethau ac yn amcanion i'r cyngor o ran yr ardal y mae'r pwyllgor yn ei

gwasanaethu. Caiff y pwyllgor hefyd ddefnyddio'r datganiad i argymell camau y mae'n ystyried y dylai'r cyngor eu cymryd mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r amcanion hynny.

182. Dan is-adran (4) mae'n ofynnol i'r pwyllgor adolygu ei ddatganiad o fewn 12 mis i'w gyflwyno i'r cyngor, ac yna pob 12 mis wedi hynny. Caiff y pwyllgor ddiwygio ei ddatganiad unrhyw bryd a rhaid iddo gyflwyno'r datganiad i'r cyngor ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo.

**Adran 53 – Darpariaeth bellach ynglŷn â llunio datganiad o flaenoriaethau ac amcanion**

183. Mae adran 53 yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â llunio'r datganiad.

184. Rhaid i bob pwyllgor ardal gymunedol roi sylw i'r asesiad diweddaraf o lesiant lleol a gyhoeddir gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus y sir o dan adran 37 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

185. Rhaid i'r pwyllgor ardal gymunedol ymgynghori â'r personau a'r sefydliadau a restrir yn is-adran (2) cyn cyflwyno ei ddatganiad i'r cyngor. Rhaid i'r datganiad gynnwys manylion yr ymgynghoriad a gynhaliodd y pwyllgor er mwyn cydymffurfio ag is-adran (2), ynghyd â chrynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb iddo.

**Adran 54 – Pŵer i roi swyddogaethau cynghori atodol i bwyllgor ardal gymunedol**

186. Dan yr adran hon caiff cyngor sir ganiatáu i un o'i bwyllgorau ardaloedd cymunedol gyflwyno adroddiad i'r cyngor neu i'w weithrediaeth, neu gyflwyno argymhellion iddynt, o ran unrhyw fater sy'n ymwneud ag ardal y pwyllgor.

**Adran 55 – Dirprwyo swyddogaethau cyngor sir i bwyllgor ardal gymunedol**

187. Dan yr adran hon, caiff cyngor sir ddirprwyo i'r pwyllgor ardal gymunedol unrhyw swyddogaeth:
- nad yw gweithrediaeth y cyngor yn gyfrifol amdani;
- sy'n ddarostyngedig i adran 101(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

188. Gwneir diwygiadau canlyniadol (y cyfeirir atynt isod) i adrannau 14 a 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n caniatáu i swyddogaethau gweithrediaethau cynghorau sir gael eu dirprwyo i bwyllgorau ardaloedd cymunedol.

189. Mae is-adran (3) yn darparu na chaniateir dirprwyo arfer swyddogaeth i bwyllgor ardal gymunedol ac eithrio mewn perthynas ag ardal y pwyllgor. Golyga hyn na ellir dirprwyo swyddogaeth i'w harfer gan bwyllgor ardal gymunedol at unrhyw ddibenion heblaw'r rheini sy'n ymwneud ag ardal y pwyllgor hwnnw. Nid yw dirprwyo swyddogaeth, neu swyddogaethau, i'r pwyllgor yn atal y cyngor rhag arfer y swyddogaeth honno hefyd.

190. Mae is-adran (5) yn croesgyfeirio at adrannau 14 a 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gwneud darpariaeth sy'n caniatáu i bwyllgor ardal gymunedol arfer swyddogaeth y mae gweithrediaeth y cyngor sir yn gyfrifol amdani. Mae Atodlen 8, a gyflwynir gan adran 163, yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adrannau 14 a 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Adran 56 – Cais i ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal gymunedol**

191. Mae'r adran hon yn galluogi pwyllgor ardal gymunedol i wneud cais i'r cyngor fod swyddogaeth, neu swyddogaethau, yn cael ei dirprwyo neu eu dirprwyo i'r pwyllgor o

dan adran 55 o’r Bil Drafft hwn. Caiff y pwyllgor hefyd wneud cais i weithrediaeth y cyngor, neu aelod neu bwyllgor o’r weithrediaeth honno, ddirprwyo swyddogaeth neu swyddogaethau i’r pwyllgor o dan adrannau 14 neu 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

192. Rhaid i’r sawl sy’n cael y cais ymateb i gais y pwyllgor, gan nodi ei benderfyniad. Os penderfynir gwrthod y cais, rhaid hysbysu’r pwyllgor pam fod y cais yn cael ei wrthod.

**Adran 57 – Pŵer i’w gwneud yn ofynnol dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal gymunedol neu i gyfyngu ar hynny**

193. Mae adran 57 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn:
- ei gwneud yn ofynnol i drefniadau gael eu gwneud bod swyddogaethau’r cyngor sir neu weithrediaeth y cyngor yn cael eu harfer gan bwyllgorau ardaloedd cymunedol;
- atal y cyngor rhag dirprwyo swyddogaeth, neu swyddogaethau, i’w bwyllgorau ardaloedd cymunedol;
- gosod cyfyngiadau ar ddirprwyo swyddogaeth, neu swyddogaethau, i bwyllgorau ardaloedd cymunedol;
- gwneud darpariaeth am y ffordd y mae’n rhaid gwneud trefniadau i ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol.

194. Mae’r rheoliadau hyn yn gymwys i swyddogaethau a ddirprwyir o dan adran 55 o’r Bil Drafft hwn neu adrannau 14 neu 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Adran 58 – Dirprwyo swyddogaethau gan bwyllgor ardal gymunedol**

195. Diben yr adran hon yw gwneud darpariaeth i bwyllgorau ardaloedd cymunedol ddirprwyo swyddogaethau y cânt eu harfer, a galluogi cynghorau sir a phwyllgorau ardaloedd cymunedol i gyfyngu ar y graddau y gellir dirprwyo swyddogaethau, ac ym mha achosion ac o dan ba amgylchiadau y gellir gwneud hynny.

196. Caiff pwyllgor ardal gymunedol drefnu i unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau gael eu harfer gan is-bwyllgor i’r pwyllgor hwnnw neu gan un o swyddogion y cyngor sir. Pan fo swyddogaeth sy’n arferadwy gan bwyllgor ardal gymunedol hefyd yn arferadwy gan is-bwyllgor, caiff yr is-bwyllgor drefnu bod un o swyddogion y cyngor yn arfer y swyddogaeth.

197. Ond caiff cyngor sir sy’n trefnu i swyddogaeth gael ei harfer gan bwyllgor ardal gymunedol o dan adran 55 (dirprwyo swyddogaethau cyngor sir i bwyllgor ardal gymunedol) gyfarwyddo na chaiff y pwyllgor ardal gymunedol ddirprwyo’r swyddogaeth honno i gael ei harfer gan is-bwyllgor nac un o swyddogion yr awdurdod, neu na chaiff wneud hynny mewn achosion neu amgylchiadau penodol.

198. Caiff cyngor sir hefyd roi cyfarwyddyd na chaiff is-bwyllgor y dirprwywyd swyddogaeth i’w harfer ganddo ei dirprwyo i un o swyddogion y cyngor, neu na chaiff wneud hynny mewn achosion neu amgylchiadau penodol.

199. Caiff pwyllgor ardal gymunedol sy’n trefnu bod swyddogaeth i’w harfer gan is-bwyllgor, o dan is-adran (1), roi cyfarwyddyd na chaiff yr is-bwyllgor drefnu i’r swyddogaeth gael ei harfer gan un o swyddogion y cyngor, neu na chaiff wneud hynny mewn achosion neu amgylchiadau penodol.

200. Nid yw trefniadau a wneir o dan yr adran hon ar gyfer arfer swyddogaeth yn atal unrhyw berson a gaiff ei harfer, os na wnaed trefniadau o'r fath, rhag ei harfer.

**Adran 59 – Canllawiau**

201. Mae'r adran hon yn rhestru'r cyrff y mae'n rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Bennod hon.

**Adran 60 – Swyddogaethau cynghorau sir o dan y Bennod hon**

202. Mae adran 60 yn darparu na chaiff gweithrediaeth y cyngor arfer y swyddogaethau a roddir i gyngor llawn cyngor sir, o dan y Bennod hon. Ni chaniateir eu dirprwyo o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau i awdurdodau lleol gyflawni swyddogaethau) ychwaith.

**Adran 61 – Pŵer i gymhwyso deddfiadau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol**

203. Dan yr adran hon caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu bod pwyllgorau ardaloedd cymunedol a'u his-bwyllgorau i'w trin fel pe baent yn bwyllgorau ac yn is-bwyllgorau i gynghorau sir a benodwyd o dan adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, at ddibenion y ddeddfwriaeth a bennir yn y rheoliadau hynny.

204. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu bod trefniadau a wneir o dan adran 55 (dirprwyo swyddogaethau cyngor sir i bwyllgor ardal gymunedol) a 58 (dirprwyo swyddogaethau gan bwyllgor ardal gymunedol) i'w trin, at ddibenion deddfwriaeth a bennir yn y rheoliadau hynny, fel pe baent yn drefniadau i ddirprwyo swyddogaethau o dan adran 101(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn achos pwyllgorau ardaloedd cymunedol ac adran 101(2) o'r Ddeddf honno yn achos is-bwyllgorau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol.

205. Caiff rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn gynnwys darpariaethau sy'n addasu'r modd y caiff y deddfiad ei gymhwyso.

**Adran 63 ac Atodlen 8 – Diwygiadau a diddymiadau pellach**

206. Mae adran 63 yn cyflwyno'r diwygiadau a'r diddymiadau i ddeddfwriaeth bresennol yn Atodlen 8 sy'n digwydd o ganlyniad i'r Bennod hon.

207. Mae Atodlen 8 yn nodi'r diwygiadau i'r testun a'r diddymiadau sy'n digwydd o ganlyniad i ddarpariaethau Pennod 3 o Ran 3 o'r Bil Drafft hwn.

208. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys diwygiadau canlyniadau i adrannau 14 ac 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn caniatáu i'r swyddogaethau sy'n arferadwy gan weithrediaeth y cyngor gael eu dirprwyo i bwyllgorau ardaloedd cymunedol. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn y diwygiadau hynny'n dilyn y dull a fabwysiadwyd yn adrannau 14 a 15 presennol Deddf Llywodraeth Leol 2000 i drefniadau a wnaed ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth.

**Adran 64 – Diffiniadau**

209. Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth o ran ceisiadau gwella; mae'r adran hon yn diffinio'r termau amrywiol a ddefnyddir yn y Bennod hon.

210. Cais sy'n gofyn i'r awdurdod ymuno mewn trafodaethau â'r corff gyda golwg ar wella canlyniad neu ganlyniadau yn ardal yr awdurdod yw 'cais gwella'. Caiff ei wneud gan 'corff sydd â diddordeb' ac fe'i cyflwynir i 'awdurdod perthnasol'.

211. Mae angen i'r canlyniad ddeillio o wasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan neu ar ran yr awdurdod, neu gyfrannu at wasanaeth o'r fath, er mwyn gallu gwneud cais gwella mewn perthynas â'r canlyniad. Gellir gwneud cais hefyd mewn perthynas â chanlyniad y gellid ei wella drwy ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gan yr awdurdod neu ar ran yr awdurdod.

212. Ystyr gwasanaeth cyhoeddus yn y cyd-destun hwn yw gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd, neu y gellid ei ddarparu i'r cyhoedd, gan yr awdurdod neu ar ran yr awdurdod. Golyga hyn y gallai cais gwella ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus nad yw awdurdod yn ei ddarparu ar hyn o bryd, ond y byddai o fewn ei bŵer i'w ddarparu. Er enghraifft, efallai fod cyngor cymuned yn poeni fod pobl yn cysgu'r nos mewn parc lleol. Gan fod gan gynghorau sir amryw o swyddogaethau ym maes tai a digartrefedd, gallai cyngor cymuned gyflwyno cais gwella er mwyn trafod â'r cyngor sir a oes cyfle i sicrhau mwy o le mewn hosteli i bobl ddigartref yn ei ardal.

213. Cynghorau sir yw'r cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau yn y Bennod hon, y cyfeirir atynt fel 'awdurdod perthnasol'. Caiff Gweinidogion Cymru, o dan is-adran (6), wneud rheoliadau sy'n gwneud cyrff eraill yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau; rhaid i'r cyrff hyn fod yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, fodd bynnag. Mae unrhyw reoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

214. Y 'cyrff sydd â diddordeb', sef y rheini a gaiff wneud cais gwella, yw:
- cyrff nad ydynt yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ac sy'n cynnal gweithgareddau yn bennaf er budd ardal yr awdurdod, rhan o'r ardal honno neu unrhyw grŵp o bobl yn yr ardal honno;
- cyrff gwirfoddol, sef cyrff sy'n cynnal gweithgareddau heb fod er elw ac nad ydynt yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus (gweler is-adran (8) hefyd);
- cyrff neu ymddiriedolaethau elusennol;
- cynghorau cymuned yn ardal yr awdurdod perthnasol.

215. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu cyrff eraill a gaiff wneud ceisiadau gwella.

### Adran 65 – Ceisiadau gwella

216. Dan yr adran hon, rhaid i awdurdod perthnasol ystyried unrhyw geisiadau gwella ysgrifenedig a gyflwynir iddo gan gorff sydd â diddordeb:
- sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn adran 66; ac
- sy'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu pennu mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

### Adran 66 – Gofynion ar gyfer ceisiadau gwella

217. Dan adran 66 rhaid i gais gwella:
- pennu'r canlyniad y gellid ei wella;
- egluro sut y gellid gwella'r canlyniad;
- darparu manylion unrhyw wybodaeth, arbenigedd neu brofiad sydd gan y corff sydd â diddordeb mewn perthynas â'r canlyniad;
- nodi'r rhesymau pam y mae'r corff sydd â diddordeb o'r farn y dylai gynnal trafodaethau â'r awdurdod perthnasol gyda golwg ar wella'r canlyniad.

218. Mae is-adran (2) yn caniatáu i ddau neu ragor o gyrff sydd â diddordeb ddod ynghyd i wneud cais gwella ar y cyd.

219. Wrth wneud cais gwella i awdurdod perthnasol, caiff corff sydd â diddordeb ofyn i un neu ragor o awdurdodau perthnasol eraill gymryd rhan yn y trafodaethau hefyd.

**Adran 67 – Penderfynu pa un ai i gytuno i gais gwella ai peidio**

220. Rhaid i awdurdod perthnasol gytuno i gais gwella (hynny yw, cytuno i gynnal trafodaethau â'r corff sydd â diddordeb sy'n gwneud y cais) sy'n bodloni pob un o'r gofynion a nodir yn y Bennod hon, oni bai bod seiliau rhesymol dros ei wrthod neu oni bai bod:

- y cais yn ymwneud â materion sydd yr un fath â materion sydd wedi'u cynnwys mewn cais gwella blaenorol, neu'n debyg iawn iddynt; a
- y cais yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cyn diwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynwyd y cais blaenorol.

221. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr amgylchiadau pan ystyrir bod cais newydd yr un fath â chais blaenorol, neu'n debyg iawn iddo (rhaid i'r naill gais a'r llall ymwneud â gwella'r un canlyniad, neu'r un canlyniad i raddau helaeth). Nid yw'n berthnasol pa un a yw'r corff sy'n gwneud y cais newydd yr un corff ag a wnaeth y cais blaenorol.

**Adran 68 – Hysbysu cyrff sydd â diddordeb a yw awdurdod wedi cytuno i gais gwella**

222. Fewn 45 o ddiwrnodau o dderbyn y cais, rhaid i awdurdod perthnasol hysbysu'r corff sydd â diddordeb a yw wedi penderfynu derbyn y cais, neu ei wrthod. Os yw'r cais yn cael ei wrthod rhaid i'r awdurdod hysbysu'r corff pam y mae'n ei wrthod, yn yr hysbysiad sy'n gwrthod y cais.

223. Caiff y cyngor a'r corff sydd â diddordeb gytuno ar gyfnod hwy na 45 o ddiwrnodau ar gyfer dyroddi penderfyniad y cyngor.

**Adran 69 – Cynnal trafodaethau â'r corff sydd â diddordeb**

224. Pan fo awdurdod wedi derbyn cais gwella, mae adran 69 yn darparu bod ganddo 45 o ddiwrnodau o'r diwrnod y mae'r awdurdod yn rhoi ei hysbysiad o dan adran 68, i gychwyn trafodaethau gyda'r corff ynglŷn â gwella'r canlyniad sy'n destun y cais.

225. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol ei chyhoeddi o ran eu penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau gwella.

**Adran 70 – Cwynion**

226. Dan yr adran hon, rhaid i awdurdod perthnasol sefydlu proses gwyno ar gyfer ymdrin ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â cheisiadau gwella. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy fel rhan o'r weithdrefn gwyno hon.

**Adran 71 – Adrodd ar ganlyniad ceisiadau gwella**

227. Mae adran 71 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod perthnasol gyhoeddi adroddiad unwaith y mae'r trafodaethau a gynhaliwyd mewn ymateb i gais gwella wedi dod i ben. Rhaid iddo gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan ac mewn unrhyw ffordd arall y mae'n ystyried ei bod yn briodol.

228. Rhaid i'r adroddiad grynhoi pwnc a chanlyniad y trafodaethau (gan gynnwys unrhyw benderfyniadau a wnaed), ac egluro hefyd sut y mae'r awdurdod yn bwriadu rhoi gwybod

i'r corff neu'r cyrff sydd â diddordeb am unrhyw gamau pellach sy'n deillio o'r trafodaethau hyn.

229. Wrth lunio'r adroddiad rhaid i'r awdurdod perthnasol ofyn am farn y corff neu'r cyrff sydd â diddordeb, a gymerodd ran yn y trafodaethau, ynghyd ag unrhyw bobl eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

**Adran 72 – Adroddiadau blynyddol**

230. Mae adran 72 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhoi gwybodaeth am y materion a restrir yn is-adran (2). Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, fanylion y camau y mae'r awdurdod wedi'u cymryd i hybu'r defnydd o geisiadau gwella a helpu cyrff i wneud y ceisiadau hynny.

231. Bydd pob adroddiad blynyddol yn ymwneud â'r cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mawrth a rhaid iddo gael ei gyhoeddi erbyn 30 Mehefin fan bellaf.

**Adran 73 – Canllawiau**

232. Dan yr adran hon mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol roi sylw i unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â cheisiadau gwella a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 74 – Rheoliadau**

233. Mae adran 74 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag amryw o faterion sy'n berthnasol i geisiadau gwella.

234. Dan is-adran (3) caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio'r diffiniadau o 'cyrff sydd â diddordeb' neu 'cyrff gwirfoddol', fel y'u nodir yn adran 64, neu'n gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Bennod hon.

**Adran 75 – Dyletswydd ar feiri etholedig ac arweinydd gweithrediaeth i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus**

235. Mae'r adran hon yn gosod adran 15B newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

236. Dan adran 15B mae'n ofynnol i reolau sefydlog cyngor sir sydd â threfniadau gweithrediaeth gynnwys darpariaeth i'r maer etholedig neu'r arweinydd gweithrediaeth fynychu o leiaf un cyfarfod bob blwyddyn galendr ble y gall pobl leol holi sut y mae gweithrediaeth y cyngor wedi cyflawni ei swyddogaethau. Ystyr 'pobl leol', at ddibenion yr adran hon, yw pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal.

**Adran 76 – Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol**

237. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir wneud trefniadau sy'n sicrhau bod trafodion unrhyw gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu darlledu'n electronig. Dylai aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod allu gweld a chlywed y trafodion wrth iddynt gael eu cynnal. Mae'n ofynnol i gynghorau sir sicrhau hefyd fod unrhyw ddarllediad perthnasol ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol wedi'r cyfarfod.

238. Y trafodion y mae'n rhaid eu darlledu'n electronig yw unrhyw gyfarfod cyngor sir, neu unrhyw ran o gyfarfod o'r fath, neu unrhyw gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor i gyngor, ar yr amod fod y cyfarfod hwnnw'n agored i'r cyhoedd.

239. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu trafodion nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofyniad i ddarlledu yn is-adran (1).

240. Wrth wneud trefniadau ar gyfer darlledu trafodion yn electronig, rhaid i gynghorau sir roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

241. Nid yw argaeledd darllediad yn effeithio ar ddilysrwydd y trafodion mewn unrhyw gyfarfod y mae'n ofynnol iddo gael ei ddarlledu'n electronig (pa un a yw'n cael ei ddarlledu yn ystod y cyfarfod neu wedi hynny). Felly, os na chafodd cyfarfod ei ddarlledu am unrhyw reswm, neu os nad oedd fersiwn wedi'i recordio o'r darllediad y gellid edrych arno wedyn, byddai unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod yn dal yn ddilys.

242. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyfarfodydd awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol, gan gynnwys eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau, gael eu darlledu'n electronig.

243. Mae unrhyw gyfeiriad at bwyllgor neu is-bwyllgor yn yr adran hon yn cynnwys cyd-bwyllgorau neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor. Felly pe byddai gan ddau gyngor sir gyd-bwyllgor at ddiben penodol, er enghraifft, a'i gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd, byddai dyletswydd ar y ddau gyngor i wneud trefniadau i ddarlledu'r cyfarfod.

**Adran 77 – Mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol**

244. Mae adran 77 yn gymwys o ran cyfarfodydd cynghorau sir, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol, gan gynnwys eu pwyllgorau, eu his-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau, is-bwyllgorau i gyd-bwyllgorau a gweithrediaethau cynghorau sir.

245. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n caniatáu:
- ffilmio, tynnu lluniau neu wneud recordiadau sain yn y cyfarfodydd uchod;
- defnyddio dulliau eraill sy'n galluogi personau nad ydynt yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath i weld neu glywed y cyfarfod fel y mae'n digwydd, neu'n nes ymlaen;
- adrodd neu sylwebu ar gyfarfodydd o'r fath, ar lafar neu mewn ysgrifen, fel bod yr adroddiad neu'r sylwebaeth ar gael wrth i'r cyfarfod gael ei gynnal neu wedi hynny, i bersonau nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod.

246. Caiff y rheoliadau hyn ragnodi sut y caiff mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd ei hwyluso a'i reoli. Er enghraifft, drwy osod gofynion ar yr awdurdodau penodedig i'w gwneud yn hwylus i bobl flogio neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Twitter i adrodd ar drafodion cyfarfodydd, yn ystod y cyfarfod ac ar ôl iddo ddod i ben.

247. Caiff rheoliadau o'r fath hefyd wneud darpariaeth, ymysg pethau eraill, am y camau y mae personau i'w cymryd cyn ffilmio neu gwblhau gweithgareddau eraill y mae'r rheoliadau yn eu caniatáu, ynghyd â'r amgylchiadau pan na chaiff personau gyflawni gweithgareddau o'r fath.

**Adran 78 – Cyfranogi yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned**

248. Mae Rhan 4 o Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r ffordd y caiff cyfarfodydd cynghorau cymuned eu cynnal.

249. Mae'r adran hon yn gosod paragraff 27A newydd yn Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn darparu bod rhaid rhoi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol yng nghyfarfodydd cyngor cymuned wneud sylwadau am unrhyw eitem fydd

yn cael ei thrafod yn y cyfarfod hwnnw, oni bai bod y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod o'r farn y byddai gwneud hynny'n amharu ar gynnal y cyfarfod yn effeithiol.

**Adran 79 – Dyletswydd i gyhoeddi canllaw i'r cyfansoddiad**

250. Mae adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal a diweddaru dogfen sy'n nodi eu cyfansoddiad, a sicrhau bod copïau caled ohoni ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt a mynd â hwy ymaith, wedi iddynt dalu ffi resymol.

251. Mae'r adran hon yn diwygio adran 37 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir gyhoeddi arweiniad i'w cyfansoddiad mewn iaith glir.

252. Dylai'r arweiniad i'r cyfansoddiad fod yn fersiwn o'r cyfansoddiad sydd i'w ddarllen ochr yn ochr â'r cyfansoddiad, gan egluro strwythur y cyngor a'r ffordd y mae'n gweithredu mewn iaith bob dydd. Ei brif amcan yw helpu'r cyhoedd i ddeall gwerthoedd a gweithdrefnau'r cyngor yn well.

253. Rhaid cyhoeddi'r arweiniad i'r cyfansoddiad, yn ogystal â'r cyfansoddiad ei hun, ar wefan y cyngor sir. Rhaid i gopïau caled o'r naill ddogfen a'r llall fod ar gael ym mhrif swyddfa'r cyngor, fel y gall y cyhoedd edrych arnynt a mynd â hwy ymaith (gellir codi ffi am fynd â chopïau ymaith ond ni ddylai fod yn fwy na chost darparu'r copi).

254. Dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 rhaid i gynghorau sir roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddiben Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Caiff y canllawiau ymdrin â'r ffordd y gallai'r cyfansoddiad, ac felly'r arweiniad i'r cyfansoddiad, gyfeirio at werthoedd y cyngor, yr egwyddorion sy'n llywio ei waith a'r ffordd y mae'n ymwneud â'r cyhoedd.

**Adran 80 – Dyletswydd ar gynghorau sir i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol**

255. Dan yr adran hon mae'n ofynnol i gyngor sir gyhoeddi cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post swyddogol ar gyfer pob aelod o'r cyngor sir, y gellir ei ddefnyddio i anfon gohebiaeth i'r aelod (gweler adran 84 am y ddyletswydd ar aelodau o gynghorau sir i ateb gohebiaeth a anfonir i'w cyfeiriad swyddogol). Rhaid iddo gyhoeddi'r cyfeiriadau hyn ar ei wefan ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

## *Rhan 4 – Swyddogaethau Cynghorau Sir A'u Haelodau*

**Pennod 2 – Dyletswyddau ar Aelodau o Gynghorau Sir**

256. Dylai aelodau etholedig cynghorau sir wybod beth fydd eu swydd yn ei olygu, beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt a pha ganlyniadau fydd yn eu hwynebu os nad ydynt yn bodloni'r disgwyliadau hynny.

257. Mae'r Bennod hon yn amlinellu swyddogaethau aelodau etholedig, sef y cyfrifoldebau y bydd pob aelod yn eu hysgwyddo wrth gael ei ethol. Dyletswyddau sylfaenol yw'r rhain i fynychu cyfarfodydd, cynnal cymorthfeydd, ateb gohebiaeth, cwblhau hyfforddiant a llunio adroddiad blynyddol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â methiant ar ran aelodau etholedig i gydymffurfio â'u dyletswyddau i'w gweld ym Mhennod 3 o'r Rhan hon.

**Adran 82 – Aelodau o gynghorau sir i fynychu cyfarfodydd**

258. Mae adran 82 yn rhoi dyletswydd ar aelodau o gynghorau sir i fynychu cyfarfodydd:

- y cyngor sir y maent yn aelod ohono;
- pwyllgor neu is-bwyllgor i'r cyngor sir hwnnw, os ydynt yn aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor;
- cyfarfod o unrhyw gyd-bwyllgor, cyd-fwrdd neu unrhyw gorff arall y maent yn aelod ohono, os yw'r pwyllgor, y bwrdd neu'r corff hwnnw'n cyflawni unrhyw swyddogaethau ar ran y cyngor sir, neu os yw wedi'i benodi i gynghori'r cyngor ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau;
- os yw'r cyngor yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth (gweler adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) a bod y person yn aelod o'r weithrediaeth, cyfarfod o'r weithrediaeth neu gyfarfod o bwyllgor o'r weithrediaeth y maent yn aelod ohoni neu ohono;
- unrhyw gyfarfod y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt ei fynychu wrth arfer eu swyddogaethau fel aelodau o'r cyngor sir. Er enghraifft, fel awdurdodau addysg lleol bydd cynghorau yn enwebu cynghorwyr lleol yn rheolaidd i wasanaethu ar fyrddau llywodraethwyr ysgolion. Byddai disgwyl i gynghorydd sy'n cael ei ethol yn llywodraethwr fynychu cyfarfodydd y bwrdd llywodraethwyr.

259. Ni fydd aelodau yn torri'r ddyletswydd hon os oes ganddynt reswm da dros beidio â bod yn y cyfarfod, ac nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol os ydynt yn cymryd absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011. O dan Ran 2 o Fesur 2011 caiff aelodau o gynghorau sir fod yn absennol o gyfarfodydd y cyngor mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, absenoldeb mamolaeth neu achos newydd o fabwysiadu.

260. Nid yw'r ddyletswydd o dan yr adran hon yn effeithio ar weithredu adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n dweud y bydd person yn peidio â bod yn aelod o'r cyngor sir os nad yw'n mynychu unrhyw gyfarfod o'r cyngor hwnnw am chwe mis yn olynol.

**Adran 83 – Aelodau o gynghorau sir i gynnal cymorthfeydd**

261. Dan adran 83 mae'n ofynnol i aelodau cynghorau sir gynnal cymorthfeydd o leiaf bedair gwaith ym mhob cyfnod perthnasol o 12 mis. Gall aelodau'r cyhoedd gyfarfod yr aelod yn y cymorthfeydd hyn, i drafod materion yn breifat.

262. Mae is-adran (5) yn diffinio cyfnod perthnasol o 12 mis at y diben hwn. Fel arfer, bydd y cyfnod cyntaf yn dechrau ar y diwrnod y mae'r aelod yn ymgymryd â'i swydd fel cynghorydd a bydd pob cyfnod dilynol o 12 mis yn dechrau ar yr un diwrnod. Ond o dan is-adran (6), fodd bynnag, caiff unrhyw gyfnod y mae'r aelod yn cymryd absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011 ei anwybyddu wrth gyfrifo'r cyfnod 12 mis.

263. Rhaid i bob cymhorthfa bara am gyfanswm o awr, o leiaf, ac mae'n rhaid i'r aelod sicrhau bod y gymhorthfa yn cael ei hysbysebu ar wefan y cyngor, ac yn unrhyw le arall y mae'r aelod yn ystyried ei fod yn briodol, o leiaf wythnos ymlaen llaw.

264. Ni fydd aelodau yn torri'r ddyletswydd hon os oes ganddynt reswm da dros beidio â chydymffurfio â hi.

**Adran 84 – Aelodau o gynghorau sir i ateb gohebiaeth**

265. Dan adran 84 mae'n ofynnol i aelodau o gynghorau sir ateb unrhyw ohebiaeth a anfonir i'w cyfeiriad swyddogol o fewn 14 diwrnod o'i derbyn. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys i ohebiaeth sy'n dod i law pan fydd yr aelod yn cymryd absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

266. Cyfeiriad swyddogol yr aelod yw unrhyw gyfeiriad post neu gyfeiriad electronig sydd wedi'i gyhoeddi gan y cyngor sir, o dan adran 80 o'r Bil Drafft hwn, fel cyfeiriad y gellir anfon gohebiaeth ar gyfer yr aelod iddo.

267. Ni fydd aelodau yn torri'r ddyletswydd hon os oes ganddynt reswm da dros beidio â chydymffurfio â hi.

**Adran 85 – Aelodau o gynghorau sir i gwblhau hyfforddiant**

268. Dan yr adran hon, rhaid i aelod o gyngor sir gwblhau unrhyw gwrs hyfforddi y mae'r cyngor wedi penderfynu ei fod yn un gorfodol ar gyfer yr aelod o dan sylw, ac y mae wedi hysbysu'r aelod ei bod yn rhaid iddo'i gwblhau.

269. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i aelodau sy'n cymryd absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

270. Ni fydd aelodau yn torri'r ddyletswydd hon os oes ganddynt reswm da dros beidio â chydymffurfio â hi.

**Adran 86 – Aelodau o gynghorau sir i lunio adroddiadau blynyddol**

271. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswydd ar bob aelod o gyngor sir i lunio adroddiad blynyddol. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i bennaeth gwasanaethau democrataidd y cyngor.

272. Swydd a grëwyd gan Fesur 2011 yw swydd y pennaeth gwasanaethau democrataidd. Ei swyddogaethau yw cynorthwyo aelodau etholedig wrth eu gwaith a chefnogi pwyllgorau trosolwg a chraffu. Bydd gan y pennaeth gwasanaethau democrataidd well dealltwriaeth o waith aelodau etholedig a pha gymorth pellach allai fod o fudd iddynt, wrth iddynt gyflwyno eu hadroddiadau blynyddol iddo.

273. Rhaid i'r adroddiad blynyddol ymdrin â gweithgareddau'r aelod fel aelod o'r cyngor hwnnw yn ystod y cyfnod 12 mis y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, a rhaid iddo nodi canlyniadau'r gweithgareddau hynny, os yw'r aelod yn ymwybodol ohonynt.

274. Mae'n ofynnol i bob cyngor sir bennu'r cyfnod y mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol ei gwmpasu yn ei reolau sefydlog (er enghraifft, y flwyddyn ariannol, neu o 1 Ionawr hyd 31 Rhagfyr).

275. Rhaid i reolau sefydlog y cyngor hefyd bennu erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd. Er enghraifft, caiff y rheolau sefydlog bennu dyddiad penodol neu bennu mai cyfnod penodol ar ôl digwyddiad arbennig, fel cyfarfod blynyddol y cyngor, yw'r dyddiad olaf ar gyfer ei gyflwyno.

276. Mae paragraff 1 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu bod rhaid i'r cyngor gynnal cyfarfod blynyddol. Fel rheol ni chaiff ei gynnal yn ddiweddarach na diwedd mis Mai bob blwyddyn. Ni ddylai rheolau sefydlog y cyngor bennu dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad blynyddol sydd ar ôl diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau

â dyddiad y cyfarfod blynyddol sy'n dilyn y cyfnod o 12 mis y mae'r adroddiad blynyddol yn ei gwmpasu.

277. Er enghraifft, pe byddai rheolau sefydlog cyngor yn pennu bod rhaid i adroddiadau blynyddol aelodau ymwneud â'r flwyddyn ariannol, a bod y cyngor yn cynnal cyfarfod blynyddol 2022 ar ddydd Iau, 26 Mai 2022, byddai'n rhaid i'r cyngor sicrhau nad oedd y dyddiad a gâi ei bennu yn ei reolau sefydlog sy'n gymwys i adroddiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, yn ddim hwyrach na 25 Awst 2022.

278. Mae is-adran (5) yn rhoi dyletswydd ar y cyngor sir i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ei aelodau.

279. Mae adrannau 89 i 93 yn nodi'r camau y gellir eu cymryd os yw aelod yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd i lunio adroddiad blynyddol.

**Adran 87 – Cwynion am fethiant aelod i gydymffurfio â dyletswyddau**

280. Mae adran 87 yn caniatáu i unrhyw un gyflwyno cwyn ysgrifenedig i swyddog monitro'r cyngor sir ynghylch methiant posibl ar ran aelod i fynychu cyfarfodydd (adran 82), i gynnal cymorthfeydd (adran 83), i ateb gohebiaeth (adran 84) neu i gwblhau cyrsiau hyfforddi (adran 85).

**Adran 88 – Penderfynu a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd perfformiad ai peidio**

281. Pan fydd swyddog monitro yn derbyn cwyn o dan adran 87, neu pan fydd ganddo reswm arall i gredu bod aelod wedi torri ei ddyletswyddau, mae'r adran hon yn darparu bod rhaid iddo gyfeirio'r mater at sylw cadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor, er mwyn i'r ddau ohonynt ystyried a ddylid ymchwilio i'r mater ai peidio.

282. Mae swyddogion monitro yn adrodd ar faterion sy'n anghyfreithlon, neu'n debygol o fod yn anghyfreithlon, neu faterion sy'n gyfystyr â chamweinyddu. Maent hefyd yn gyfrifol am faterion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad aelodau a swyddogion, ac am y modd y mae cyfansoddiad y cyngor yn gweithredu. Mae sail gyfreithlon gwaith swyddogion monitro i'w weld yn adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, fel y'i diwygiwyd.

283. Mae'r adran hon yn gwahaniaethu, at rai dibenion, rhwng sefyllfa pan fo swyddog monitro yn derbyn cwyn o dan adran 87 (cwynion am fethiant aelod i gydymffurfio â dyletswyddau) a'r sefyllfa pan nad yw swyddog monitro yn derbyn cwyn ond bod ganddo reswm arall i gredu bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau.

284. Wrth ystyried a ddylid ymchwilio i'r mater ai peidio, rhaid i gadeirydd y pwyllgor safonau a'r swyddog monitro ystyried a yw'r gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus ac a yw'n ymwneud â'r un ffeithiau â chŵyn yr ymdriniwyd â hi eisoes, neu ffeithiau sy'n debyg iawn iddynt. Rhaid iddynt hefyd ystyried a yw'n briodol ymchwilio i'r mater.

285. Os nad yw'r swyddog monitro wedi derbyn cwyn, ond bod ganddo reswm i gredu bod aelod wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau, rhaid iddo ystyried a yw'n briodol ymchwilio i'r mater, ar y cyd â chadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor.

286. Caiff y swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau wneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol yn eu tyb hwy er mwyn penderfynu a ddylid ymchwilio i fater ai peidio.

287. Os yw naill ai'r swyddog monitro neu gadeirydd y pwyllgor safonau yn credu y dylid ymchwilio i fater, rhaid i'r swyddog monitro ymchwilio i'r mater hwnnw.

288. Os yw'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ill dau o'r farn na ddylid ymchwilio i fater, yna ni ddylid cynnal ymchwiliad. Yn y sefyllfa honno, os yw'r mater yn cael ei ystyried yn sgil cwyn a ddaeth i law o dan adran 87, rhaid i'r swyddog monitro, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gymryd camau rhesymol i hysbysu'r achwynydd na fydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater, a rhoi rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

**Adran 89 – Penderfynu a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd i wneud adroddiad blynyddol ai peidio**

289. Dan yr adran hon, os yw pennaeth gwasanaethau democrataidd cyngor sir yn credu ei bod yn bosibl bod aelod o'r cyngor hwnnw wedi torri'r ddyletswydd o dan adran 86 (aelodau o gynghorau sir i lunio adroddiadau blynyddol), caiff y pennaeth gwasanaethau democrataidd hysbysu'r swyddog monitro, a chaiff y swyddog monitro yntau ymchwilio i'r mater.

290. Mae Mesur 2011 yn gwahardd cynghorau sir rhag dynodi'r un swyddog yn bennaeth gwasanaethau democrataidd ac yn swyddog monitro. Bydd adran 105 o'r Bil Drafft hwn yn codi'r gwaharddiad hwn, fodd bynnag. O dan yr adran hon felly, os yr un person yw'r pennaeth gwasanaethau democrataidd a'r swyddog monitro, caiff y person hwnnw ymchwilio i'r mater yn rhinwedd ei rôl fel swyddog monitro.

291. Wrth ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad ai peidio, rhaid i'r swyddog monitro ymgynghori â chadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor sir ynghylch a yw'n briodol ymchwilio i'r mater ai peidio.

**Adran 90 – Ymchwiliad gan swyddog monitro**

292. Mae adran 90 yn darparu bod rhaid i swyddog monitro, wrth ymchwilio i fater o dan adran 88 neu 89, roi cyfle i ymateb i'r aelod sy'n destun yr ymchwiliad. Caiff y swyddog monitro ofyn i unrhyw berson am wybodaeth ar y mater sy'n destun ymchwiliad a gofyn i unrhyw berson ei helpu i gynnal yr ymchwiliad.

**Adran 91 – Adroddiad y swyddog monitro**

293. Dan yr adran hon mae'n ofynnol i'r swyddog monitro ddarparu adroddiad i'r pwyllgor safonau ar ôl iddo orffen cynnal ymchwiliad. Bydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion y dylai'r pwyllgor eu hystyried. Rhaid i'r pwyllgor safonau ganiatáu i'r swyddog monitro ymddangos ger ei fron i gyflwyno'r adroddiad ac unrhyw argymhellion sydd ynddo.

294. Rhaid i'r swyddog monitro hefyd anfon copi at yr aelod o dan sylw. Os oedd yr ymchwiliad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, rhaid iddo hefyd gymryd camau rhesymol i anfon yr adroddiad at yr achwynydd.

295. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ymwneud â'r cyhoeddusrwydd sydd i'w roi i adroddiadau ac argymhellion a wneir o dan yr adran hon.

**Adran 92 – Ystyried mater gan bwyllgor safonau**

296. Pan fo pwyllgor safonau yn derbyn adroddiad o dan adran 91, mae adran 92 yn darparu bod rhaid iddo benderfynu a oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r ddyletswydd o dan sylw.

297. Os yw'r pwyllgor safonau yn penderfynu nad oes unrhyw dystiolaeth o fethiant o'r fath, rhaid iddo hysbysu'r aelod o dan sylw. Os oedd yr adroddiad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, rhaid iddo hefyd gymryd camau rhesymol i hysbysu'r achwynydd.

298. Os yw'r pwyllgor safonau yn penderfynu bod tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â'r ddyletswydd, neu y gall fod tystiolaeth o'r fath, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod o dan sylw yn nodi y caiff gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor, ar lafar neu mewn ysgrifen, mewn cysylltiad â'r adroddiad. Rhaid i'r pwyllgor safonau nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i'r aelod gyflwyno sylwadau; ni all y dyddiad hwn fod yn ddiweddarach na 28 o ddiwrnodau o'r diwrnod yr hysbyswyd yr aelod bod ganddo hawl i gyflwyno sylwadau.

299. Caiff y pwyllgor ofyn i'r swyddog monitro fynychu'r cyfarfod i'w helpu, gofyn i unrhyw berson am wybodaeth, neu wahodd unrhyw berson i gyflwyno sylwadau iddo. Ni chaiff y swyddog monitro wrthod ymddangos gerbron y pwyllgor, mewn modd afresymol.

**Adran 93 – Dyfarniad y pwyllgor safonau**

300. Dan yr adran hon mae'n ofynnol i bwyllgor safonau, ar ôl iddo ystyried y mater, ddyfarnu a yw aelod wedi torri dyletswydd. Ni ddylai ddod i benderfyniad nes bod y dyddiad olaf y caiff yr aelod gyflwyno sylwadau, fel y'i pennwyd o dan adran 92, wedi mynd heibio.

301. Os yw'r pwyllgor yn dyfarnu bod yr aelod wedi torri dyletswydd, caiff:
- ceryddu'r aelod;
- atal yr aelod neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r cyngor am hyd at chwe mis; neu
- gwneud dim.

302. Rhaid i'r pwyllgor safonau hysbysu'r aelod a chymryd camau rhesymol i hysbysu'r achwynydd (os oedd y mater yn deillio o gŵyn o dan adran 87) o'i benderfyniad, ynghyd ag unrhyw gamau sydd i ddilyn.

303. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi hawliau i aelodau cyngor sir apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan bwyllgor safonau o dan yr adran hon. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r cyhoeddusrwydd sydd i'w roi i benderfyniad (gan gynnwys penderfyniad nad yw aelod wedi methu â chydymffurfio â dyletswydd) ac i unrhyw gamau a gymerir yn erbyn aelod.

**Adran 94 – Rheoliadau**

304. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r ffordd y dylid ymdrin ag achos posibl o dorri dyletswydd a osodir gan Bennod 2 (dyletswyddau aelodau o gynghorau sir). Caiff y rheoliadau hyn gynnwys:
- materion sydd i'w hystyried wrth gynnal ymchwiliad;
- y gweithdrefnau sydd i'w dilyn;
- darpariaeth ynghylch datgelu gwybodaeth;
- pa dreuliau all fod yn daladwy; a
- sut y mae apelau i'w cynnal.

305. Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon hefyd ganiatáu i fater gael ei gyfeirio at swyddog monitro neu bwyllgor safonau 'awdurdodau eraill'. Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'awdurdodau eraill' yw cynghorau sir eraill, awdurdodau tân ac achub neu awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru.

**Adran 95 – Canllawiau**

306. Dan adran 95 mae'n ofynnol i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Bennod 2 neu 3 o'r Rhan hon roi sylw i unrhyw ganllawiau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu dyroddi. Ymysg y rheini y mae dyletswydd arnynt i roi sylw i ganllawiau mae aelodau o gynghorau sir, penaethiaid gwasanaethau democrataidd, swyddogion monitro, cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau safonau.

**Adran 96 – Pwyllgorau safonau i ddarparu hyfforddiant**

307. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), i ddarparu bod rôl pwyllgorau safonau yn cynnwys cynghori, hyfforddi, neu drefnu bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i aelodau mewn perthynas â'r dyletswyddau a osodir o dan adrannau 82 i 86.

**Adran 97 – Diwygiadau i Fesur 2011**

308. Mae'r adran hon yn diddymu adran 5 o Fesur 2011, a oedd yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i wneud trefniadau i'w haelodau lunio adroddiadau blynyddol. Yn lle hynny, bydd dyletswydd ar yr aelodau eu hunain i lunio adroddiadau blynyddol o dan adran 86 o'r Bil Drafft hwn.

309. Mae is-adran (3) yn diwygio Mesur 2011 drwy osod dyletswydd ar gynghorau sir i benderfynu a ddylai fod yn orfodol i'w haelodau gwblhau unrhyw gwrs hyfforddi o dan adran 85 o'r Bil Drafft hwn, ac i sicrhau bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddarparu. Mae adran 7 o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w haelodau.

**Adran 98 – Dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad**

310. Mae adran 98 yn mewnosod adran 52A newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

311. Mae adran 52A yn gosod dyletswydd ar arweinydd grŵp gwleidyddol, sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir, i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau'r grŵp hwnnw. Rhaid i arweinyddion hefyd gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor ac unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw, o ran arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau. Rhaid i arweinyddion grwpiau gwleidyddol roi sylw i unrhyw ganllawiau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu dyroddi, wrth gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn.

312. Rhoddir y pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r amgylchiadau pan ystyrir bod aelodau o gyngor sir yn rhan o grŵp gwleidyddol, at ddibenion adran 52A, a pha bryd yr ystyrir bod aelod o grŵp gwleidyddol yn arweinydd ar y grŵp hwnnw. Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

313. Mae is-adran (3) yn mewnosod is-adran newydd yn adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gan ychwanegu at swyddogaethau pwyllgorau safonau cynghorau sir. Y swyddogaethau newydd hyn yw:

- monitro i ba raddau mae arweinyddion grwpiau gwleidyddol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; a
- cynghori a hyfforddi arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar eu dyletswyddau o dan yr adran honno, neu drefnu hyfforddiant ar eu cyfer.

**Adran 99 – Amcanion i'w cyflawni gan weithrediaethau cynghorau**

314. Mae adran 99 yn mewnosod adran 15A newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

315. Mae adran 15A yn ei gwneud yn ofynnol i faer etholedig neu arweinydd gweithrediaeth cyngor sir bennu amcanion ar gyfer gweithrediaeth y cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi iddynt gael eu hethol i'r swydd honno.

316. Rhaid i amcanion gweithrediaeth y cyngor ymwneud â chyflawni swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Rhaid i faer etholedig neu arweinydd gweithrediaeth adolygu'r amcanion yn gyson a chânt eu diwygio unrhyw bryd.

317. Gallai'r amcanion a gâi eu pennu ar gyfer y weithrediaeth ymwneud â meysydd portffolio penodol yn ogystal â chyfrifoldebau'r weithrediaeth yn gyffredinol.

318. Rhaid i'r maer etholedig neu'r arweinydd gweithrediaeth lunio adroddiad, a hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Mawrth bob blwyddyn, yn nodi i ba raddau y cyflawnwyd yr amcanion hynny. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r maer etholedig neu'r arweinydd gweithrediaeth drefnu i gyhoeddi'r amcanion a'r adroddiadau sy'n cael eu llunio o dan yr adran hon.

**Adran 100 – Maniffestos: ethol arweinydd gweithrediaeth**

319. Mae adran 100 yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, drwy fewnosod is-baragraff (1A) newydd.

320. Mae paragraff 2(1A) yn darparu bod rhaid i drefniadau gweithrediaeth cyngor sir ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd sy'n sefyll i'w ethol yn arweinydd gweithrediaeth lunio maniffesto ysgrifenedig. Rhaid i drefniadau gweithrediaeth cynghorau sir gynnwys darpariaeth i sicrhau bod copïau o'r maniffestos yn cael eu darparu i aelodau eraill y cyngor cyn yr etholiad.

321. Mae paragraff 2A newydd hefyd yn cael ei fewnosod yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ddarparu bod rhaid i reolau sefydlog cyngor sir sy'n gweithredu model gweithrediaeth arweinydd a chabinet, sicrhau bod ymgeiswyr sy'n sefyll i'w hethol yn arweinydd gweithrediaeth yn cael cyfle i hybu eu maniffesto ysgrifenedig mewn cyfarfod o'r cyngor cyn yr etholiad. Gallai hybu maniffesto gynnwys yr ymgeisydd i fod yn arweinydd yn siarad o'i blaid yn y cyfarfod perthnasol o'r cyngor, ond gallai ddigwydd mewn ffyrdd eraill.

**Adran 101 – Penodi cynorthwywyr i weithrediaeth**

322. Mae'r adran hon yn mewnosod paragraff 3A newydd yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

323. Mae paragraff 3A yn darparu y caiff trefniadau gweithrediaeth cyngor sir ddarparu bod aelodau'r cyngor yn cynorthwyo'r weithrediaeth i gyflawni ei ddyletswyddau drwy wasanaethu fel cynorthwywyr iddi.

324. Os yw'r cyngor yn gweithredu system maer a chabinet, rhaid i'r maer etholedig benodi cynorthwywyr i'r weithrediaeth. Ond o dan drefniadau gweithrediaeth arweinydd a chabinet, rhaid i'r arweinydd gweithrediaeth neu'r cyngor llawn benodi cynorthwywyr.

325. Bydd angen i'r cyngor llawn benodi'r cynorthwywyr os yw cyfansoddiad y cyngor yn pennu mai'r cyngor llawn, yn hytrach na'r arweinydd gweithrediaeth, sy'n penodi'r weithrediaeth. O dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ni ellir dirprwyo'r swyddogaeth o benodi cynorthwywyr.

326. Fel rhan o'i drefniadau gweithrediaeth, caiff cyngor sir hefyd bennu sawl cynorthwyydd sydd i'w benodi, hyd eu cyfnod yn y swydd a'u cyfrifoldebau.

327. Ni chaniateir penodi cadeirydd ac is-gadeirydd y cyngor, na'r aelod llywyddol a'r dirprwy aelod llywyddol os yw hynny'n berthnasol, yn gynorthwywyr i'r weithrediaeth. Nid yw cynorthwyydd i'r weithrediaeth yn aelod o'r weithrediaeth.

328. Mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 wedi ei ddiwygio i alluogi cynorthwywyr i'r weithrediaeth i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r weithrediaeth neu bwyllgor o'r weithrediaeth, a siarad yn y cyfarfod. Ni chaiff bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r fath, fodd bynnag.

329. Mae is-adran (4) yn cyflwyno Atodlen 6. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys amrywiol ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol sydd eu hangen er mwyn adlewyrchu swyddogaeth cynorthwywyr i weithrediaethau.

**Adran 102 – Canllawiau**

330. Mae adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i 'awdurdod lleol', sef cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Rhan 2 o'r Ddeddf honno.

331. Mae'r adran hon yn diwygio adran 38 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i feiri etholedig ac arweinyddion gweithrediaeth hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran honno.

332. Dan yr adran hon mae is-adran (1A) newydd hefyd yn cael ei mewnosod yn adran 38, er mwyn darparu y caiff unrhyw ganllawiau gynnwys darpariaeth a gynlluniwyd i annog arfer da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth (o fewn ystyr adran 8(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2006). Yn y Ddeddf honno, caiff 'cydraddoldeb' ('equality') ei ddiffinio fel 'cydraddoldeb rhwng unigolion' ('equality between individuals'), a chaiff 'amrywiaeth' ('diversity') ei ddiffinio fel 'y ffaith fod unigolion yn wahanol' ('the fact that individuals are different').

**Adran 103 – Penodi prif weithredwr ac adroddiadau ganddo**

333. Mae'n ofynnol i gyngor sir benodi un o'i swyddogion i fod yn bennaeth gwasanaeth cyflogedig, o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

334. Mae adran 103 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sir benodi prif weithredwr. Mae'r swydd honno'n disodli swydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig. Mae swyddogaethau'r prif weithredwr yn parhau i fod yr un fath, i raddau helaeth, â swyddogaethau pennaeth gwasanaeth cyflogedig, er bod y swyddogaeth sy'n ymwneud â rheoli staff y cyngor wedi ei hymestyn i raddau i gynnwys materion fel hyfforddi a datblygu.

335. Dan adran 103 rhaid i brif weithredwr cyngor sir adolygu materion penodol yn gyson ac os yw o'r farn fod hynny'n briodol, rhaid iddo lunio adroddiad ar gyfer y cyngor yn nodi ei gynigion o ran unrhyw un neu ragor o'r materion hynny. Dyma'r materion:

- y ffordd y cydgysylltir y modd y mae'r cyngor yn arfer ei wahanol swyddogaethau;

- nifer y staff a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y cyngor i arfer ei swyddogaethau;
- trefniadaeth staff y cyngor a phenodi staff y cyngor; a'r
- trefniadau ar gyfer rheoli staff y cyngor (gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu).

336. Rhaid i'r prif weithredwr drefnu bod adroddiadau o dan yr adran hon yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r cyngor. Rhaid i'r cyngor llawn ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod a gynhelir o fewn tri mis i'w ddosbarthu.

337. Mae dyletswydd ar y cyngor sir i ddarparu'r staff, yr adeiladau a'r adnoddau eraill i'r prif weithredwr, yr ystyria'r prif weithredwr eu bod yn ddigonol i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan yr adran hon.

338. Mae is-adran (7) yn cyflwyno Atodlen 7 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth i adlewyrchu'r ffaith fod swydd y prif weithredwr yn cymryd lle swydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig.

**Adran 104 – Arweinyddion cynghorau i osod amcanion ar gyfer prif weithredwyr etc.**

339. Mae'r adran hon yn gymwys i gynghorau sir sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

340. Dan is-adran (2) mae'n ofynnol i brif aelod gweithrediaeth y cyngor sir, h.y. yr arweinydd gweithrediaeth neu'r maer etholedig, osod amcanion ar gyfer prif weithredwr y cyngor. Rhaid gosod yr amcanion hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl penodi'r prif weithredwr, a rhaid i'r prif aelod gweithrediaeth hefyd drefnu eu bod yn cael eu cyhoeddi.

341. Mae'n ofynnol i'r prif aelod gweithrediaeth adolygu i ba raddau y mae'r prif weithredwr wedi cyflawni'r amcanion, a hynny bob blwyddyn. Os yw'r prif aelod gweithrediaeth o'r farn fod hynny'n angenrheidiol, caiff ddiwygio'r amcanion hynny. Rhaid i'r prif aelod gweithrediaeth lunio adroddiad ar bob adolygiad, a threfnu bod yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi a'i anfon at bob aelod o'r cyngor.

342. Rhaid i'r prif aelod gweithrediaeth ymgynghori â'r prif weithredwr yn ystod pob cam o'r broses a ddisgrifir uchod.

343. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor llawn ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod a gynhelir o fewn tri mis i'w gyhoeddi (ni ellir dirprwyo'r ddyletswydd hon o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Felly caiff y cyngor llawn, fel cyflogwr y prif weithredwr, wybod am berfformiad y prif weithredwr yn erbyn yr amcanion a bydd cynghorwyr yn cael cyfle i graffu, i gynnig sylwadau neu i argymell bod camau'n cael eu cymryd o ran y perfformiad hwnnw.

**Adran 105 – Pennaeth gwasanaethau democrataidd**

344. Mae'r adran hon yn diwygio adran 8(4) o Fesur 2011 ac adran 43(2) o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

345. Mae'r diwygiad i Fesur 2011 yn codi'r gwaharddiad ar ddynodi swyddog monitro yn bennaeth gwasanaethau democrataidd cyngor hefyd. Mae ffaith fod y gwaharddiad hwn yn cael ei godi yn cydnabod y cyswllt agos sy'n bodoli rhwng gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau democrataidd mewn rhai cynghorau sir, ac nad yw'r ddwy swydd yn gwrthdaro â'i gilydd.

346. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 wedi ei diwygio er mwyn cynnwys swydd y pennaeth gwasanaethau democrataidd yn y diffiniad o brif swyddog at ddibenion darpariaethau atebolrwydd tâl y Ddeddf honno. Mae hyn yn cydnabod statws y pennaeth gwasanaethau democrataidd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol, ymysg pethau eraill, i gynghorau sir gyhoeddi tâl penaethiaid gwasanaethau democrataidd yn eu datganiad cyfrifon blynyddol.

**Adran 106 – Hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o bwyllgorau trosolwg a chraffu**

347. Aelodau cyfetholedig pwyllgor yw'r aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r cyngor sir. Mae adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn atal aelodau cyfetholedig o bwyllgor trosolwg a chraffu rhag pleidleisio, ar y cyfan.

348. Mae'r adran hon yn diwygio adran 21(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i ddarparu bod hawl gan aelodau cyfetholedig o bwyllgor trosolwg a chraffu, neu ei is-bwyllgorau, i bleidleisio mewn amgylchiadau penodol. Mae'r amgylchiadau hyn wedi eu nodi ym mharagraff 15 newydd Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, sydd hefyd yn cael ei fewnosod gan yr adran hon o'r Bil Drafft.

349. Mae'n bosibl y caiff aelod cyfetholedig bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor, neu gyfarfodydd ei is-bwyllgorau, os yw'r cyngor llawn yn rhoi ei ganiatâd. Dim ond gyda chytundeb y pwyllgor trosolwg a chraffu y caiff y cyngor roi'r caniatâd hwn.

350. Rhaid i'r caniatâd nodi enw'r aelod cyfetholedig, a chaiff gyfyngu ar y materion y caiff bleidleisio arnynt a rhagnodi am ba gyfnod y caiff yr aelod cyfetholedig bleidleisio.

351. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau cynghorau sir a phwyllgorau trosolwg a chraffu o ran hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau hynny, neu eu his-bwyllgorau.

**Adran 107 – Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu**

352. Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran 22(10) o Deddf Llywodraeth Leol 2000 ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir ddarparu gwybodaeth i bersonau penodedig ynglŷn â phenderfyniadau y mae gweithrediaeth y cyngor yn gyfrifol amdanynt.

353. Mae adran 107 yn diwygio is-adran 22(10) er mwyn ychwanegu aelodau o bwyllgor trosolwg a chraffu cyngor, ac unrhyw un neu ragor o'i is-bwyllgorau, at y rhestr o bersonau penodedig.

**Adran 108 - Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu**

354. Mae'r adran hon yn diwygio adran 58 o Fesur 2011 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. O dan y rheoliadau hynny, rhaid i ddau awdurdod lleol neu ragor (cynghorau sir er enghraifft) benodi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu.

**Adran 109 – Dyletswydd ar bwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol**

355. Mae adran 109 yn mewnosod adran 56B newydd yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

356. Mae adran 56B yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor safonau, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, lunio adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno. Rhaid i'r adroddiad blynyddol ddisgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

357. Mae'r gofynion o ran llunio adroddiad yn gymwys i bwyllgorau safonau cynghorau sir, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru. Pwyllgor safonau'r cyngor sir perthnasol sy'n cyflawni swyddogaeth pwyllgor safonau cyngor cymuned.

358. Mae adran 56B(3) yn amlinellu'r materion y mae'n rhaid i adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau eu crynhoi ond nid yw'n rhoi rhestr gyflawn o'r hyn y mae'n rhaid i'r adroddiadau hynny ei gynnwys. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys asesiad o'r graddau y mae arweinyddion grwpiau gwleidyddol y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau o grwpiau gwleidyddol) yn ystod y flwyddyn ariannol.

359. Rhaid i'r adroddiad blynyddol hefyd gynnwys crynodeb o faterion a gyfeiriwyd at gadeirydd y pwyllgor safonau, yr ymchwiliadau a gynhaliwyd a'r camau a gymerwyd, o dan Bennod 3 o'r Rhan hon, mewn perthynas ag achosion o aelodau yn methu â chyflawni eu dyletswyddau o dan Bennod 2.

360. Caiff adroddiad y pwyllgor safonau gynnwys argymhellion i'r cyngor neu'r awdurdod ynghylch unrhyw beth y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag ef. O fewn tri mis o gael yr adroddiad, rhaid i'r cyngor neu'r awdurdod ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod o'r cyngor neu'r awdurdod.

## *Rhan 5 – Cynghorau Sir: Llywodraethu Yn Well*

### Adran 111 – Trefniadau llywodraethu

361. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn ddarostyngedig i 'dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella' a'r drefn asesu ac ymyrryd gysylltiedig ar gyfer gwella y darperir ar ei chyfer yn Rhan 1 o Fesur 2009 ('trefn 2009'). Caiff trefn 2009 ei diddymu mewn perthynas â chynghorau sir gan adran 147. Mae'r ddarpariaeth yn yr adran hon yn disodli'r 'dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella' ac mae'r darpariaethau yn Rhan 5, yn ei chyfanrwydd, yn rhoi trefn sy'n canolbwyntio ar ansawdd llywodraethu mewn cynghorau sir yn lle trefn 2009, gyda mwy o lawer o atebolrwydd lleol ac o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol.

362. Mae adran 111 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau llywodraethu cynghorau sir. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir wneud, gweithredu â chydymffurfio â threfniadau er mwyn sicrhau llywodraethu da, atebolrwydd, a darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y ffordd y defnyddir adnoddau'r cyngor. Rhaid i drefniadau llywodraethu cyngor gydymffurfio â'r egwyddorion, y prosesau a'r arferion a nodir yn y rheoliadau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu gwneud o dan is-adran (3).

363. Wrth wneud rheoliadau o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru ragnodi unrhyw god ymarfer neu ganllawiau (boed wedi eu dyroddi ganddynt hwy ai peidio). Mae *Delivering Good Governance in Local Government: Framework*, a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol, yn enghraifft o god ymarfer y gellid ei ragnodi.

364. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau pellach ynghylch trefniadau llywodraethu.

**Adran 112 – Dyletswydd cynghorau sir i lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol**

365. Dan yr adran hon, rhaid i gyngor sir lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol. Ystyrir bod cynllun corfforaethol sy'n nodi amcanion y cyngor sir a'u cysylltu â'r modd y caiff adnoddau eu dyrannu yn hanfodol er mwyn cynnal llywodraethu da. Mae is-adrannau (2) a (3) yn pennu bod rhaid i'r cynllun gynnwys:
- datganiad sy'n nodi blaenoriaethau'r cyngor yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor o ran arfer ei swyddogaethau; a,
- datganiad sy'n nodi materion y mae'r cyngor yn rhagweld y bydd yn gwneud penderfyniadau o arwyddocâd penodol yn eu cylch.

366. Mae is-adrannau (4) i (6) yn rhagnodi'r wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o strategaethau'r cyngor, adroddiad hunanasesu'r cyngor (gweler adran 117) a dogfennau a gyhoeddir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015'). Mae Deddf 2015 yn nodi saith o nodau llesiant. Bydd cynghorau sir yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn Neddf 2015. Bydd yn ofynnol i gyngor sir gyflawni datblygu cynaliadwy drwy bennu a chyhoeddi amcanion ('amcanion llesiant') a gynlluniwyd i gynyddu ei gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant i'r eithaf. Bydd hefyd yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'n debygol y bydd amcanion llesiant y cyngor yr un fath â'r blaenoriaethau hirdymor y mae'n rhaid i'r cyngor eu nodi o dan is-adran (2) (a'r blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig hefyd, o bosibl, mewn rhai achosion).

367. Rhoddir y pŵer hefyd i Weinidogion Cymru, yn is-adran (7), wneud rheoliadau sy'n nodi materion pellach y mae'n rhaid eu cynnwys yng nghynllun corfforaethol cyngor sir.

**Adran 113 – Pryd y mae'r cynllun corfforaethol i'w gyhoeddi**

368. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir gyhoeddi ei gynllun corfforaethol cyntaf o fewn tri mis calendr i'r etholiad llawn cyntaf ar gyfer aelodau'r cyngor ar ôl i'r adran hon ddod i rym. Wedi hynny, mae'n ofynnol i gyngor sir gyhoeddi ei gynllun corfforaethol yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad pob etholiad.

369. Mae is-adran (3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ran sut a phryd y mae'n rhaid cyhoeddi cynllun corfforaethol, gan gynnwys newid y terfynau amser ar gyfer cyhoeddi a amlinellir yn is-adrannau (1) a (2).

**Adran 114 – Adolygu a diwygio cynllun corfforaethol**

370. Mae adran 114 yn nodi pa mor aml y mae'n rhaid i gyngor sir adolygu ei gynllun corfforaethol, sef o leiaf unwaith y flwyddyn. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n ofynnol i gyngor sir asesu ei gynnydd o ran y blaenoriaethau a nodir yn y datganiad sy'n ofynnol gan adran 112(2).

371. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r cyngor, ar ôl cwblhau'r adolygiad, gyhoeddi'r cynllun corfforaethol diwygiedig (gan gynnwys yr adroddiad ar yr asesiad y mae'n ei gyflawni o dan is-adran (2)). Rhaid i'r adroddiad gynnwys y fersiynau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd o'r dogfennau yn adran 112(6) neu wybodaeth ynglŷn â sut i gael gafael ar y dogfennau hynny.

372. Ym mhob amgylchiad arall, mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi cynllun diwygiedig os yw o'r farn ei bod yn briodol iddo wneud hynny.

**Adran 115 – Ymgynghori ar gynllun corfforaethol**

373. Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir i ymgynghori â’r canlynol cyn llunio neu ddiwygio cynllun corfforaethol:
- Byrddau Iechyd Lleol sy’n gweithredu yn ardal y cyngor;
- y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal y cyngor hwnnw; ac
- unrhyw bersonau eraill y mae’r cyngor yn ystyried eu bod yn briodol.

374. Bwrdd a sefydlir yn ardal y cyngor sir o dan Ddeddf 2015 yw’r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r bwrdd yn cynnwys aelodau statudol sef y cyngor sir, y Bwrdd Iechyd Lleol, Corff Adnoddau Naturiol Cymru a’r awdurdod tân ac achub perthnasol. Mae cyd-ddyletswydd ar yr aelodau i lunio cynllun llesiant lleol ar gyfer yr ardal, sy’n nodi’r camau y bydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn eu cymryd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant. Caiff cyrff cyhoeddus sy’n aelodau o’r bwrdd gwasanaethau lleol gynnwys eu hamcanion llesiant yn y cynllun llesiant lleol. Pan fo’r aelodau yn gwneud hynny, bydd perthynas glir rhwng y cynllun llesiant lleol a chynllun corfforaethol y cyngor sir.

**Adran 116 – Dyletswydd ar gyngor sir i gynnal hunanasesiad**

375. Rhoddodd trefn 2009 rôl benodol i Archwilydd Cyffredinol Cymru i asesu i ba raddau mae awdurdod lleol wedi gwella ac i ba raddau y gall wella.

376. Mae adran 116 yn cyflwyno trefn fwy hyblyg yn lle rôl yr Archwilydd Cyffredinol Cymru. O dan y drefn hon gall cyngor sir asesu pa un a yw’n cydymffurfio â’i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da. Ceir tri math o asesiad: hunanasesiad, asesiad gan gymheiriaid ac asesiad cyfun gan y rheoleiddwyr perthnasol. Rhaid i’r cyngor geisio barn y pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio am ei ymateb drafft i adroddiad asesu.

377. Mae cyngor sir yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gynnal hunanasesiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae is-adran (2) yn darparu mai asesiad gan gyngor sir o’r graddau y mae’n cydymffurfio â’r dyletswyddau a nodir yn adran 111 (trefniadau llywodraethu) yw hunanasesiad.

**Adran 117 – Adroddiad hunanasesu**

378. Mae adran 117 yn nodi’r broses y mae cyngor sir i’w dilyn wrth lunio adroddiad ar bob hunanasesiad y mae’n ei gynnal. Diben yr hunanasesiad yw rhoi cyfle i gyngor fyfyrio ar ei drefniadau llywodraethu a chymryd camau, os yw hynny'n briodol. Rhaid i’r adroddiad hunanasesu:
- cynnwys asesiad y cyngor o’r graddau y mae’n cydymffurfio â’r dyletswyddau a nodir yn adran 111 (trefniadau llywodraethu); a
- nodi pa gamau y mae’r cyngor yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r asesiad.

379. Rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio’r cyngor (gweler Pennod 7 o’r Rhan hon, sy’n gwneud darpariaeth ynghylch y pwyllgorau hyn) adolygu fersiwn ddrafft o’r ymateb, a chaiff argymell newidiadau i’r adroddiad. Rhaid i’r cyngor roi sylw i’r argymhellion hynny ac os yw’n penderfynu peidio â gwneud y newidiadau hynny, rhaid iddo nodi ei resymau yn fersiwn derfynol yr adroddiad.

380. Mae is-adran (7) yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad hunanasesu, a sut a phryd y mae’n rhaid ei gyhoeddi.

**Adran 118 – Dyletswydd ar gyngor sir i drefnu asesiadau gan gymheiriaid**

381. Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyngor sir i drefnu bod asesiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal. Diben asesiadau gan gymheiriaid yw bod personau annibynnol sy'n meddu ar arbenigedd priodol yn asesu i ba raddau y mae’r cyngor yn cydymffurfio â’i ddyletswyddau o dan adran 111 o’r Bil Drafft hwn, a thrwy wneud hynny, byddant yn asesu pa mor wrthrychol yw hunanasesiad y cyngor. Rhaid i’r asesiad gan gymheiriaid gael ei gynnal gan banel a benodwyd gan y cyngor sir. Bydd y panel yn cynnwys aelodau etholedig profiadol a swyddogion llywodraeth leol o rannau eraill o Gymru ac o Loegr, yn ogystal â phersonau sy'n meddu ar arbenigedd ar lefel uwch, er enghraifft, yn y sector preifat neu’r sector gwirfoddol.

382. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch penodi paneli i gynnal asesiadau gan gymheiriaid. Mae is-adran (4) yn nodi rhai o’r materion penodol y caiff rheoliadau ymdrin â hwy.

**Adran 119 – Pa mor aml y cynhelir asesiadau gan gymheiriaid**

383. Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth o ran pa mor aml y cynhelir asesiadau gan gymheiriaid. Mae’n ofynnol i gynghorau sir gynnal asesiad cyntaf gan gymheiriaid yn ddim hwyrach na 31 Mawrth 2023 ac o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol i’r cyngor sir hwnnw.

384. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio is-adrannau (1) a (2) drwy reoliadau er mwyn newid pryd a pha mor aml y mae’n rhaid cynnal asesiad gan gymheiriaid.

**Adran 120 – Adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid**

385. Dan yr adran hon rhaid i’r panel lunio adroddiad ar yr asesiad gan gymheiriaid a gynhaliwyd ganddo, a’i gyflwyno i’r cyngor sir.

386. Rhaid i’r adroddiad fanylu ar asesiad y panel o’r graddau y mae’r cyngor yn cydymffurfio â’r dyletswyddau a osodir arno gan adran 111(trefniadau llywodraethu) ac argymell unrhyw gamau i’w cymryd gan y cyngor. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyngor gyhoeddi’r adroddiad ar yr asesiad gan gymheiriaid.

**Adran 121 – Ymateb y cyngor i adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid**

387. Mae’r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyngor sir i ymateb i bob adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid a gyflwynir iddo. Yn ei ymateb, mae’n ofynnol i’r cyngor ddatgan a yw’n derbyn yr asesiad ai peidio, ynghyd ag unrhyw argymhellion a nodir yn yr adroddiad; a nodi unrhyw gamau y mae’n bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r asesiad.

388. Rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio’r cyngor adolygu’r ymateb drafft, a chaiff argymell newidiadau iddo. Rhaid i’r cyngor roi sylw i’r argymhellion hynny ac os yw’n penderfynu gwrthod y newidiadau hynny, rhaid iddo nodi ei resymau yn ei ymateb.

389. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i’r cyngor gyhoeddi ei ymateb terfynol i’r adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid.

**Adran 122 – Darpariaeth bellach ynghylch adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid a'r ymateb iddo**

390. Dan yr adran hon caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â ffurf a chynnwys yr adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid, a hefyd ynghylch pryd a sut y caiff ei gyhoeddi.

**Adran 123 – Diffiniadau o 'rheoleiddiwr perthnasol' a 'swyddogaethau perthnasol'**

391. Mae adran 123 yn pennu'r rheoleiddwyr y mae'n rhaid iddynt gyflawni asesiad cyfun o drefniadau llywodraethu cyngor sir o dan adran 124. Mae is-adran (2) yn nodi pwy yw'r rheoleiddwyr perthnasol, yn ogystal â nodi eu swyddogaethau perthnasol, sef:

- Estyn (Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) wrth arfer ei swyddogaeth o dan adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 i adolygu'r ffordd y mae awdurdod addysg lleol (sef cyngor sir yn y cyd-destun hwn) yn cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu addysg. Mae cynghorau sir yn gwario 33% o'u gwariant refeniw gros ar wasanaethau addysg;
- Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau o dan adrannau 149A a 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i arolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol cynghorau sir, gan gynnwys (ymhlith materion eraill) argaeledd, hygyrchedd, ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor sir neu ar ei ran. Mae cynghorau sir yn gwario 21% o'u gwariant refeniw gros ar y gwasanaethau cymdeithasol. Yn ymarferol, caiff y swyddogaeth hon ei harfer yn gyffredinol drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mewnosodir adrannau 149A a 149B yn Neddf 2014 drwy Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) pan gaiff ei ddeddfu. Disgwylir i hynny ddigwydd cyn i'r Bil Drafft hwn gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad; ac
- Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio cyfrifon cyngor sir a chynnal astudiaethau mewn perthynas â gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyngor sir o ran cyflawni ei swyddogaethau, neu i wella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill cyngor sir; a chynnal archwiliadau o'r graddau y mae cyngor sir yn cydymffurfio â'i ddyletswydd llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

392. Gyda'i gilydd, mae gan y rheoleiddwyr sy'n arfer y swyddogaethau hyn ddealltwriaeth broffesiynol sylweddol o drefniadau llywodraethu a threfniadau ariannol cyngor sir, a'r ffordd y mae'n darparu ei brif wasanaethau. Gallant ddarparu'r ddealltwriaeth hon i'r cyngor sir drwy asesiad cyfun o'r graddau y mae cyngor sir yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau llywodraethu.

393. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr yn is-adran (2) i ychwanegu, i ddileu neu i newid y disgrifiad o berson y mae'n rhaid iddo gyflawni asesiad o'r fath, neu ddisgrifiad o swyddogaeth person o'r fath y mae asesiad cyfun yn ymwneud ag ef.

**Adran 124 – Dyletswydd i gynnal asesiad cyfun o drefniadau llywodraethu cyngor sir**

394. Mae adran 124 yn gosod gofyniad ar y 'rheoleiddwyr perthnasol' a ddiffinnir yn adran 123 uchod i gynnal asesiad cyfun ar y cyd o'r graddau y mae cyngor sir yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arno gan adran 111 (trefniadau llywodraethu).

395. Mae is-adran (2) yn darparu rhestr o adroddiadau, gwybodaeth a dogfennau i'w defnyddio gan y rheoleiddwyr perthnasol fel sail ar gyfer eu hasesiad cyfun. Gall rheoleiddiwr perthnasol rannu'r adroddiadau a'r wybodaeth a nodir yn is-adran (2) gyda rheoleiddwyr perthnasol eraill at ddibenion cynnal yr asesiad cyfun.

**Adran 125 – Adroddiad ar asesiad cyfun**

396. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol lunio adroddiad ar ôl cwblhau eu hasesiad cyfun o gyngor sir; sef 'adroddiad ar asesiad cyfun'. Mae'r adroddiad yn nodi eu hasesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111 (trefniadau llywodraethu) a chaiff hefyd gynnwys argymhellion i'r cyngor a Gweinidogion Cymru.

397. Mae'n ofynnol i'r rheoleiddwyr perthnasol geisio dod i gytundeb ar y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar asesiad cyfun; fodd bynnag, mae'r adran hon yn darparu y caiff yr adroddiad nodi barn pob rheoleiddiwr perthnasol ar wahân mewn achosion lle nad ydynt wedi dod i gytundeb.

398. Ar ôl llunio'r fersiwn derfynol, rhaid anfon yr adroddiad ar asesiad cyfun i'r cyngor perthnasol. Rhaid anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru hefyd pan fo'n cynnwys argymhellion i Weinidogion Cymru. Bydd hynny'n cynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth ystyried pa un ai i arfer eu pwerau adolygu ac ymyrryd o dan Bennod 4. Mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi'r adroddiad ar asesiad cyfun.

**Adran 126 – Ymateb y cyngor i'r adroddiad ar asesiad cyfun**

399. Mae adran 126 yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir i ymateb i adroddiad ar asesiad cyfun ar ôl iddo ddod i law. Wrth ymateb, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddatgan pa un a yw'n derbyn yr adroddiad ac unrhyw argymhellion sydd wedi eu cynnwys ynddo, a nodi unrhyw gamau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd.

400. Rhaid i gopi o'r ymateb drafft gael ei gyflwyno i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio'r cyngor, ac yna mae'n ofynnol i'r pwyllgor hwnnw, o dan is-adran (4), adolygu'r ymateb drafft. Caiff y pwyllgor wneud argymhellion o ran newidiadau.

401. Mae is-adran (5) yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio ymateb terfynol y cyngor i'r adroddiad ar asesiad cyfun cyn ei gyhoeddi. Rhaid i'r cyngor roi sylw i argymhellion y pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio, a phan fo'n penderfynu yn erbyn gwneud y newidiadau hynny, rhaid i'r cyngor roi ei resymau am hynny yn ei ymateb.

402. Rhaid anfon copi o ymateb y cyngor at y rheoleiddwyr perthnasol ac, os yw'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i Weinidogion Cymru, rhaid anfon copi atynt hwythau hefyd. Bydd hyn yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth ystyried pa un ai i arfer eu pwerau adolygu ac ymyrryd o dan Bennod 4. Mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi ei ymateb i'r adroddiad ar asesiad cyfun o dan is-adran (7).

**Adran 127 – Darpariaeth bellach ynghylch asesiadau cyfun**

403. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach benodol, drwy reoliadau, ynghylch asesiadau cyfun a'r adroddiadau cysylltiedig.

**Adran 128 – Pŵer Gweinidogion Cymru i drefnu adolygiad llywodraethu**

404. Mae adran 128 yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i drefnu i adolygiad llywodraethu gael ei gynnal mewn cysylltiad â chyngor sir sydd, yn eu barn hwy, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'i ddyletswyddau mewn cysylltiad â'i drefniadau llywodraethu, neu a allai fod yn methu o ran hynny. Mae adolygiad llywodraethu yn adolygiad o'r graddau y mae cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111 mewn cysylltiad â'i drefniadau llywodraethu. Cynhelir yr adolygiad er mwyn nodi camau y gellir eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hynny. Gall hyn gynnwys rhoi cyfarwyddydau ymyrryd gan Weinidogion Cymru, o dan adrannau 135 i 142.

405. Rhaid i drefniadau adolygiad llywodraethu nodi manylion:
- cwmpas yr adolygiad;
- yr adolygydd a fydd yn cyflawni'r adolygiad;
- erbyn pryd y mae'n rhaid i'r adolygydd gyflwyno ei adroddiad i Weinidogion Cymru (mae adran 133 yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y gofyniad i lunio adroddiad).

**Adran 129 – Ymgynghori cyn trefnu adolygiad llywodraethu**

406. Dan adran 129 rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyngor ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn trefnu adolygiad llywodraethu o gyngor sir.

**Adran 130 – Dyletswydd i hysbysu cyngor am drefniadau ar gyfer adolygiad llywodraethu**

407. Mae adran 130 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyngor am drefniadau'r adolygiad llywodraethu. Rhaid i'r hysbysiad nodi:
- cwmpas yr adolygiad;
- yr adolygydd a fydd yn cyflawni'r adolygiad;
- erbyn pryd y mae'n rhaid i'r adolygydd gyflwyno ei adroddiad i Weinidogion Cymru.

**Adran 131 – Dyletswydd ar gyngor i gydweithredu gydag adolygydd llywodraethu**

408. Dan yr adran hon, rhaid i gyngor sy'n destun adolygiad llywodraethu ddarparu i'r adolygydd ba bynnag gyfleusterau a chymorth y gallai fod eu hangen ar yr adolygydd er mwyn cyflawni'r adolygiad, gan gynnwys darparu dogfennau, cofnodion a gwybodaeth.

**Adran 132 – Darparu gwybodaeth gan bersonau eraill**

409. Mae adran 132 yn darparu y caiff adolygydd, wrth gynnal adolygiad llywodraethu, ei gwneud yn ofynnol i'r personau a bennir yn is-adran (3) ddarparu iddo ba bynnag gyfleusterau a chymorth y gallai fod eu hangen arno i gyflawni'r adolygiad, gan gynnwys darparu dogfennau, cofnodion a gwybodaeth. Caiff yr adolygydd ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddogfennau neu gofnodion a ddarperir yn ddarllenadwy ac yn gludadwy.

410. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â gofynion yr adolygydd; fodd bynnag, nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r gyfraith yn eu gwahardd rhag ei darparu.

411. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu neu ddileu cyfeiriad at berson, neu newid y disgrifiad o berson yn is-adran (3).

**Adran 133 - Dyletswydd ar adolygydd i lunio adroddiad**

412. Mae adran 133 yn darparu bod rhaid i adolygydd, ar ôl cwblhau adolygiad llywodraethu, lunio adroddiad sy'n manylu ar ei asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111, ynghyd ag:
- unrhyw argymhellion o ran camau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth;
- manylion y person y mae'n ystyried ddylai gymryd y camau;
- nodi o fewn pa gyfnod y mae'r adolygydd yn ystyried y dylid cwblhau'r camau;
- barn yr adolygydd ynghylch pa un a yw camau gweithredu o'r fath yn debygol o gael eu cymryd o fewn y cyfnod a bennwyd.

413. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i'r cyngor a Gweinidogion Cymru, gyda gofyniad ar y cyngor i gyhoeddi'r adroddiad o fewn 14 o ddiwrnodau o'i gyflwyno.

**Adran 134 – Ymateb y cyngor i adroddiad ar adolygiad llywodraethu**

414. Dan yr adran hon, rhaid i gyngor lunio ymateb i unrhyw adroddiad ar adolygiad llywodraethu a gyflwynir iddo, gan nodi pa gamau, os oes rhai, y mae'n bwriadu eu cymryd.

415. Rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio'r cyngor adolygu'r ymateb drafft, a chaiff argymell newidiadau iddo. Rhaid i'r cyngor roi sylw i'r argymhellion hyn a, phan fo'n penderfynu gwrthod y newidiadau hynny, rhaid iddo nodi ei resymau yn ei ymateb.

416. Rhaid i'r cyngor anfon ei ymateb terfynol at Weinidogion Cymru o fewn 31 o ddiwrnodau o'r dyddiad yr anfonir yr adroddiad i'r cyngor gan yr adolygydd. Caiff Gweinidogion Cymru ymestyn y terfyn amser hwn, fwy nag unwaith, os ydynt wedi eu bodloni bod yr estyniad hwnnw'n rhesymol.

**Adran 135 - Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau ymyrryd**

417. Mae'r adran hon yn nodi'r amgylchiadau pryd y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ymyrryd i gyngor sir; mae adrannau 136, 137 a 138 yn nodi'r mathau gwahanol o gyfarwyddyd ymyrryd. Mae'r darpariaethau hyn yn disodli pwerau Gweinidogion Cymru i roi cymorth neu gyfarwyddyd i gynghorau sir o dan adrannau 28 i 30 o Fesur 2009.

418. Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ymyrryd os ydynt o'r farn, ar ôl cael adroddiad ar adolygiad llywodraethu a wnaed o dan adran 133 ac ymateb y cyngor i'r adroddiad hwnnw, ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o ran ei drefniadau llywodraethu.

**Adran 136 – Cyfarwyddyd i gael gwasanaethau cymorth**

419. Mae adran 136 yn caniatáu Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i gyngor sir ymrwymo i gontract neu drefniant gyda'r person, neu ddisgrifiad o berson, a bennir yn y cyfarwyddyd at ddiben sicrhau'r cymorth (sef yr wybodaeth, y cyngor, yr hyfforddiant neu'r cymorth arall) a bennir yn y cyfarwyddyd.

**Adran 137 – Cyfarwyddyd i gymryd camau penodedig**

420. Dan yr adran hon caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i gyngor sir gymryd camau penodedig neu gyflawni gweithgareddau penodedig o fewn y cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd.

**Adran 138 – Cyfarwyddyd bod swyddogaethau i'w cyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai**

421. Mae adran 138 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddogaethau a bennir yn y cyfarwyddyd gael eu harfer gan Weinidogion Cymru neu gan berson a enwebwyd gan Weinidogion Cymru.

422. Pan fo cyfarwyddyd a roddwyd o dan yr adran hon mewn grym, rhaid i'r cyngor gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru neu eu henwebai mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaeth benodedig. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru benodi panel o bersonau i wella trefniadau llywodraethu cyngor drwy ddiwygio'r trefniadau a wnaed ar gyfer dirprwyo i swyddogion y cyngor, neu'r trefniadau a wnaed o ran trosolwg a chraffu.

423. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n cymhwyso unrhyw ddarpariaethau statudol, at ddibenion cymhwyso'r darpariaethau hynny wrth arfer unrhyw swyddogaethau gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai o dan gyfarwyddyd ymyrryd.

**Adran 139 – Darpariaeth gyffredinol ynghylch cyfarwyddydau ymyrryd**

424. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor gydymffurfio â chyfarwyddyd ymyrryd a roddir iddo. Mae hefyd yn darparu bod rhaid i gyfarwyddyd fod yn ysgrifenedig ac y caniateir ei newid neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd dilynol.

**Adran 140 - Dyletswydd i gydweithredu**

425. Mae adran 140 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir ddarparu i'r personau a bennir yn is-adran (2) ba bynnag gyfleusterau a chymorth a all fod eu hangen arnynt er mwyn arfer unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â chyfarwyddyd ymyrryd.

**Adran 141 - Pwerau i gael mynediad ac i archwilio**

426. Mae adran 141 yn ymwneud â hawliau'r personau a restrir yn is-adran (2) i gael mynediad i fangreoedd cyngor sir ac archwilio, a chymryd copïau o unrhyw gofnodion neu ddogfennau a gedwir gan y cyngor y mae'r person hwnnw yn ystyried eu bod yn berthnasol i arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag adolygiadau llywodraethu neu gyfarwyddydau ymyrryd.

427. Mae is-adran (2) yn rhestru'r personau a ganlyn:

- person a bennir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd ymyrryd (o dan adran 136) mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth, neu berson y mae'r cyngor sir wedi ymrwymo i gontract neu drefniant arall ag ef sy'n ofynnol gan y cyfarwyddyd;
- Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â chyfarwyddyd ymyrryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau cyngor gael eu harfer gan Weinidogion Cymru;
- person a enwebir gan Weinidogion Cymru mewn cyfarwyddyd ymyrryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogaethau cyngor gael eu harfer gan yr enwebai.

428. Mae'r hawl hwn i archwilio a chymryd copïau o ddogfennau neu gofnodion yn rhoi'r hawl i'r person penodedig gael mynediad i unrhyw gyfrifiaduron (ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig) a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r dogfennau neu'r cofnodion o dan sylw, ac archwilio a gwirio eu gweithrediad.

429. Mae'n ofynnol i unrhyw un sydd wedi defnyddio'r cyfrifiadur, neu y'i defnyddiwyd ar ei ran, ddarparu unrhyw gymorth y caiff y person penodedig ei wneud yn rhesymol ofynnol, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth ar gael neu gopïo'r wybodaeth honno ar ffurf ddarllenadwy. Mae unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am y cyfrifiadur (neu sy'n ymwneud â gweithrediad y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunyddiau) hefyd yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn.

**Adran 143 – Cydlynu swyddogaethau perthnasol rheoleiddwyr perthnasol**

430. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr a bennir yn adran 123(2) roi sylw i'r angen am gydlynu wrth arfer y swyddogaethau a bennir yn adran 123(2).

431. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cydlynu rhwng rheoleiddwyr wrth arfer swyddogaethau. Caiff y rheoliadau hyn, ymhlith pethau eraill, ymwneud ag amserlen ar gyfer arfer swyddogaethau rheoleiddwyr, rhannu gwybodaeth ac ymgynghori.

**Adran 144 – Canllawiau**

432. Os yw Gweinidogion Cymru yn dyroddi canllawiau mewn cysylltiad â'r Rhan hon, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon roi sylw i ganllawiau o'r fath.

**Adran 145 – Arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon**

433. Ac eithrio pan fo swyddogaeth wedi ei rhoi i bwyllgor penodol, caniateir i'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn y Rhan hon gael eu cyflawni gan y cyngor llawn neu ei weithrediaeth, yn unol â phenderfyniad y cyngor.

434. Nid yw'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn y Rhan hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n golygu na chaniateir eu dirprwyo i un neu ragor o bwyllgorau nac is-bwyllgorau'r cyngor sir, nac i gyngor sir arall; nid ydynt ychwaith yn ddarostyngedig i adran 14 na 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n golygu os yw'r swyddogaethau yn cael eu harfer gan weithrediaeth y cyngor, na chaniateir eu dirprwyo i un neu ragor o bwyllgorau'r weithrediaeth nac i un neu ragor o swyddogion y cyngor.

**Adran 147 – Diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**

435. Fel y nodir o dan adran 111 a 116 uchod, mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn diwygio Mesur 2009 er mwyn disodli'r gyfundrefn wella mewn perthynas â chynghorau sir y darperir ar eu cyfer yn y Mesur hwn. Ni fydd y ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella, y ddyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i lunio archwiliadau ac asesiadau gwella, pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru na'r holl bwerau a dyletswyddau eraill ym Mesur 2009 yn gymwys mwyach. Mae adran 1 o Fesur 2009 wedi ei diwygio er mwyn dileu cynghorau sir (a chynghorau bwrdeistref sirol), o'r rhestr o awdurdodau gwella Cymreig yn Mesur 2009. Mae'r diwygiad hwn yn cael yr effaith o ddatgymhwyso dyletswyddau a darpariaethau Rhan 1 o Fesur 2009 o ran cynghorau sir yng Nghymru.

436. Mae diwygiadau canlyniadol wedi eu gwneud hefyd i nifer o adrannau yn Rhan 1 o Fesur 2009 i adlewyrchu'r newid i'r diffiniad o awdurdod gwella Cymreig.

**Adran 148 – Ailenwi pwyllgorau archwilio**

437. Mae'r adran hon yn diwygio adran 81 o Fesur 2011 i ailenwi pwyllgorau craffu yn 'pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio'. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 9, sy'n gwneud newidiadau canlyniadol drwy'r cyfan o Fesur 2011.

**Adran 149 – Swyddogaethau pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio**

438. Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio i fewnosod adran newydd, sef adran 81A, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio.

439. Mae'r diwygiad yn cael yr effaith o'i gwneud yn ofynnol i bwyllgor asesu, a chyflwyno adroddiad ar, allu'r cyngor i:

- cydymffurfio â'i ddyletswyddau mewn cysylltiad â'i drefniadau llywodraethu (gweler adran 111 o'r Bil Drafft hwn);
- gwneud cynnydd mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau a nodwyd yn ei gynllun corfforaethol (gweler adran 112); ac,
- ymdrin â chwynion yn effeithiol.

440. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adrannau perthnasol yn y Rhan hon, rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio hefyd asesu'r trefniadau a wnaed gan y cyngor o ran hunanasesiadau (gweler adran 116) ac asesiadau gan gymheiriaid (gweler adran 118), a chyflwyno adroddiad ar y trefniadau hynny.

441. Rhaid i'r pwyllgor hefyd adolygu adroddiad hunanasesu drafft y cyngor (gweler adran 117) a'i ymateb drafft i:

- adroddiadau ar asesiadau gan gymheiriaid ac adroddiadau ar asesiadau cyfun (gweler adrannau 121 a 126);
- adroddiadau ar adolygiadau llywodraethu (gweler adran 134).

**Adran 150 – Aelodaeth pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio**

442. Mae adran 150 yn diwygio adran 82 o Fesur 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i un rhan o dair o aelodau pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio fod yn bersonau lleyg (o ran hynny, gweler adran 151) gyda'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn aelodau o'r cyngor.

443. Rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio benodi cadeirydd sy'n berson lleyg. Rhaid penodi is-gadeirydd hefyd; caiff yr is-gadeirydd fod yn aelod o'r cyngor ond ni chaiff fod yn aelod o weithrediaeth y cyngor.

444. Mae'r diwygiad a wnaed gan is-adran (4) yn dileu'r ddarpariaeth ym Mesur 2011 sy'n darparu bod un neu ragor o weithredoedd y pwyllgor yn annilys os bydd yn methu â chydymffurfio ag adran 82(2) o Fesur 2011 (cyfansoddiad y pwyllgor).

**Adran 151 – Ystyr person lleyg**

445. Y diffiniad o 'person lleyg' yn adran 87 o Fesur 2011 yw person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

446. Mae'r adran hon yn diwygio Mesur 2011 i ddarparu ar gyfer diffiniad newydd o 'person lleyg' sy'n eithrio rhagor o gategorïau o bersonau rhag bod yn berson lleyg. Person lleyg yw person nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ar adeg ei benodi neu o fewn 12 mis cyn ei benodi, nac yn ŵr, yn wraig nac yn bartner sifil i aelod neu swyddog o unrhyw awdurdod lleol.

**Adran 152 – Trafodion etc.**

447. Mae'r adran hon yn diwygio adran 83 o Fesur 2011 er mwyn pennu bod rhaid i gyfarfod o'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio gael ei gadeirio gan gadeirydd y pwyllgor neu, os yw ef neu hi yn absennol, gan yr is-gadeirydd. Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd ill dau yn absennol, caiff aelod arall o'r pwyllgor gadeirio'r cyfarfod; fodd bynnag, ni chaiff yr aelod hwnnw fod yn aelod o weithrediaeth y cyngor.

## *Rhan 6 – Cynghorau Cymuned*

**Adran 153 - Dyletswydd i adolygu trefniadau cynghorau cymuned**

448. Cynghorau cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol yng Nghymru. Mae 870 o ardaloedd cymunedol dros Gymru gyfan, y mae gan 735 ohonynt gynghorau cymuned. Cyngor cymuned (a gaiff hefyd alw ei hun yn 'cyngor tref') yw cyngor lleol a sefydlwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn galluogi dwy neu fwy o ardaloedd cymunedol i gael eu gwasanaethu gan un cyngor cymuned, a elwir yn gyngor cyffredin.

449. Mae'r adran hon o'r Bil Drafft yn rhoi dyletswydd ar Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal adolygiad o drefniadau cyfansoddiadol cynghorau cymuned ym mhob un o siroedd newydd Cymru.

450. Mae diben cyffredinol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi ei nodi yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae adran 21 o Ddeddf hwn yn rhoi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o dan ddyletswydd i fonitro'r ardaloedd (daearyddol) presennol a'r trefniadau etholiadol perthnasol i lywodraeth leol, er mwyn ystyried gwneud neu argymell newidiadau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ffiniau siroedd a chymunedau a'u trefniadau etholiadol yn parhau'n berthnasol yn dilyn newidiadau mewn poblogaeth a phatrymau anheddu.

451. Byddai cyfarwyddyd a wneid gan Weinidogion Cymru o dan adran 16 o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru adolygu trefniadau etholiadol yr ardaloedd sir newydd a nodir yn Atodlen 1 o'r Bil Drafft. O ganlyniad i adolygiad o'r fath, byddai Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd yn gallu gwneud newidiadau perthnasol i'r ffiniau, y cyfansoddiad a threfniadau etholiadol cynghorau cymuned.

452. Gan na allai unrhyw newidiadau i gyfansoddiad cynghorau cymunedol a wneid o dan unrhyw gyfarwyddyd o'r fath ond bod yn ganlyniadol ar adolygiad etholiadol o'r siroedd newydd, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad pwrpasol o drefniadau cynghorau cymuned ym mhob rhan o Gymru er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hwylus.

453. Mae is-adran (1) yn darparu mai'r siroedd yw'r rhai a nodir yn Atodlen 1 o'r Bil Drafft, sef sir Powys a'r rhai a fydd wedi eu sefydlu'n llawn o 1 Ebrill 2020, fel y darperir ar eu cyfer yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil Drafft. Y nod yw i unrhyw newidiadau a argymhellir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gael eu gweithredu erbyn etholiadau llywodraeth leol 2023; felly galluogir Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i ddechrau'r adolygiadau cyn 1 Ebrill 2020.

454. Diffinnir 'adolygiad o gynghorau cymuned' fel adolygiad o'r cymunedau o fewn sir er mwyn argymell newidiadau mewn cysylltiad â chynghorau cymuned a'r trefniadau etholiadol ar gyfer y cymunedau hynny.

455. Mae is-adrannau (3) a (4) yn rhestru'r mathau o newidiadau y caiff Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru eu hargymell mewn cysylltiad â chynghorau cymuned a threfniadau etholiadol cymuned, o ganlyniad i'r adolygiad.

456. Caiff Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd gynnig newidiadau canlyniadol i ffiniau cymuned; ffurfio cymuned newydd drwy uno cymunedau presennol yn llwyr neu'n rhannol neu fel arall; neu ddiddymu cymuned bresennol. Caiff y Comisiwn hefyd argymell enw ar gyfer cymuned newydd neu gymuned addasedig.

**Adran 154 - Cynnal adolygiad o gynghorau cymuned**

457. Mae'r adran hon yn nodi'r materion y mae'n rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru eu hystyried wrth gynnal yr adolygiad, gan gynnwys y gofyniad bod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn ceisio sicrhau bod y llywodraeth leol yn effeithiol a hwylus.

458. Caniateir i ardal gymunedol gael ei rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadau. Wrth ystyried pa un ai i rannu cymuned yn wardiau cymuned, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ystyried y materion a nodir yn is-adran (2), ac mae is-adran (3) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei ystyried wrth benderfynu nifer y wardiau a threfniadau'r wardiau mewn cymuned pan fônt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol rhannu cymuned yn wardiau cymuned.

459. Os bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn argymell na ddylai cymuned a rennir yn wardiau gael ei rhannu yn wardiau mwyach, neu'n argymell newid nifer y cynghorwyr cymuned, rhaid iddynt, wrth bennu nifer y cynghorwyr, roi sylw i nifer a dosbarthiad yr etholwyr ac unrhyw newid yn y nifer neu ddosbarthiad sy'n debygol o ddigwydd o fewn y pum mlynedd yn union ar ôl pennu nifer y cynghorwyr.

**Adran 155 – Hysbysu cyn cynnal adolygiad**

460. Cyn dechrau adolygiad, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddwyn yr adolygiad a fydd yn digwydd i sylw'r bobl a'r sefydliadau a restrwyd yn yr adran hon.

**Adran 156 - Ymgynghori, ymchwilio ac adrodd**

461. Mae adran 156 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, wrth gynnal yr adolygiad, ymgynghori â'r canlynol:
- y cynghorau sir neu'r cynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru (cyn iddynt beidio â bodoli ar 1 Ebrill 2020);
- y cyngor ar gyfer y sir y cynhelir yr adolygiad mewn perthynas â hi (ar ôl iddynt ddod i fodolaeth ar ôl etholiadau 2 Mai 2019 (gweler adran 14));
- 'ymgyngoreion yr adolygiad', fel y'u diffinnir yn is-adran (2); ac
- unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

462. Rhaid i gynghorau cymuned ddarparu i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru unrhyw wybodaeth y caiff, yn rhesymol, ofyn amdani er mwyn cynorthwyo'r adolygiad.

463. Ar ôl cwblhau'r adolygiad, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru lunio adroddiad sy'n nodi ei argymhellion ac sy'n darparu manylion yr adolygiad.

464. Rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ymgynghori ar yr adroddiad am rhwng 6 a 12 wythnos ('y cyfnod ar gyfer sylwadau'). Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i'r adroddiad fod ar gael i edrych arno mewn lleoliad ym mhob un o'r cymunedau o fewn y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

**Adran 157 – Adroddiad terfynol ar adolygiad**

465. Ar ôl i 'y cyfnod ar gyfer sylwadau' ddod i ben, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ystyried pa un ai i newid ei argymhellion yng ngoleuni unrhyw sylwadau a geir. Wedi hynny, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru lunio ei adroddiad terfynol sy'n cynnwys:

- ei argymhellion ar gyfer newid mewn cysylltiad â chynghorau cymuned a'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau; manylion yr adolygiad a'r ymgynghoriad;
- manylion unrhyw newidiadau i'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd.

466. Rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyflwyno ei adroddiad terfynol i gyngor y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. Rhaid iddo gyhoeddi'r adroddiad a sicrhau ei fod ar gael i bobl gael edrych arno. Rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru hefyd anfon copi o'r adroddiad terfynol at Weinidogion Cymru.

467. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyflwyno ei adroddiadau terfynol i'r cynghorau sir.

**Adran 158 – Gweithredu argymhellion y Comisiwn gan gyngor sir**

468. Mae adran 158 yn darparu, pan fo'r adroddiad terfynol a gyflwynir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gyngor sir yn cynnwys argymhellion ar gyfer newid, fod rhaid i'r cyngor wneud gorchymyn i weithredu'r argymhellion hynny. Rhaid i'r gorchymyn naill ai weithredu'r argymhellion heb eu haddasu neu ynghyd ag addasiadau y cytunir arnynt gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

469. Ni all gorchymyn gweithredu gael ei wneud hyd nes o leiaf 6 wythnos ar ôl i'r cyngor dderbyn yr adroddiad, ac ni all gael ei wneud mwy na 6 mis ar ôl i'r cyngor dderbyn yr adroddiad. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i orchymyn gweithredu a wneir gan gyngor sir ddod i rym.

470. Rhaid i'r cyngor sir, ar y diwrnod y mae'n gwneud y gorchymyn, anfon copi o'r gorchymyn at Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac at bob cyngor cymuned y mae'r gorchymyn yn effeithio arno, a chyhoeddi'r gorchymyn ar wefan.

**Adran 159 - Gorchymyn trefniadau cynghorau cymuned os nad yw'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiad**

471. Mae'r adran hon yn gymwys os yw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn methu â chyflwyno adroddiad terfynol i gyngor sir cyn y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 157(3). Caiff Gweinidogion Cymru, yn absenoldeb adroddiad terfynol gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, wneud gorchymyn sy'n nodi newidiadau'r cynghorau cymuned a'r newidiadau i'r trefniadau etholiadol cymunedol, yn ogystal ag unrhyw newidiadau canlyniadol perthnasol.

472. Pan fo amgylchiadau o'r fath yn codi, rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i'w sylw wrth gynnal yr adolygiad neu wrth lunio'r adroddiad o dan adran 156 neu adran 157.

473. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon copi o unrhyw orchymyn y maent wedi ei wneud i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a chyhoeddi'r gorchymyn hwnnw ar wefan.

474. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn dilynol, amrywio neu ddirymu unrhyw orchymyn a wneir o dan yr adran hon.

**Adran 160 - Gweithredu gan Weinidogion Cymru os nad yw'r cyngor sir yn gweithredu**

475. Os nad yw cyngor sir wedi gwneud gorchymyn o dan adran 159(1) o fewn 6 mis i'r dyddiad y cyflwynodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ei adroddiad terfynol, caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn i weithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Caiff y gorchymyn naill ai weithredu'r newidiadau fel yr argymhellir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru neu eu diwygio gan Weinidogion Cymru fel y cytunwyd gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

476. Rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ddarparu unrhyw wybodaeth i gefnogi eu hargymhellion fel y gofynnir gan Weinidogion Cymru.

477. Rhaid i Weinidogion Cymru, ar y diwrnod y maent yn gwneud gorchymyn, anfon copi i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, cyngor sir y sir y mae'r gorchymyn yn effeithio arno, a phob cyngor cymuned y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt. Rhaid hefyd gyhoeddi'r gorchymyn ar wefan.

**Adran 161 – Gorchmynion gweithredu: darpariaeth drosiannol, ganlyniadol etc**

478. Mae'r adran hon yn darparu y caiff gorchymyn a wneir o dan y Bennod hon gan gyngor sir neu Weinidogion Cymru gynnwys darpariaeth ganlyniadol.

**Adran 162 – Amrywio a dirymu gorchmynion gweithredu**

479. Mae adran 162 yn darparu gweithdrefn i Weinidogion Cymru neu gyngor sir amrywio neu ddirymu gorchymyn gweithredu blaenorol a wnaed ganddynt, neu er mwyn cywiro camgymeriadau.

**Adran 163 – Darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc gyffredinol**

480. Caiff Gweinidogion Cymru, o dan yr adran hon, wneud rheoliadau (o gymhwysiad cyffredinol) sy'n darparu ynghylch materion cysylltiedig, canlyniadol etc at ddiben rhoi effaith lawn i orchmynion gweithredu: er enghraifft trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau.

**Adran 164 – Trosglwyddo staff**

481. Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 yn gymwys i unrhyw drosglwyddiad staff o ganlyniad i unrhyw orchymyn gweithredu neu reoliadau a wneir o dan y Bennod hon, ac eithrio mewn perthynas â'r materion a restrir yn is-adran (3), sef rhwymedigaeth droseddol (rheoliad 4(6)) a phensiynau (rheoliad 10).

**Adran 165 - Cyfarwyddydau a chanllawiau**

482. Mae’r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â chynnal adolygiadau cyngor cymuned. Cyn rhoi cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyrff a restrir yn is-adran (2).

483. Rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a phob cyngor sir (a, chyn 1 Ebrill 2020, pob cyngor bwrdeistref sirol) roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 166 - Addasu a diwygio adran 30 o Ddeddf 1972**

484. Mae Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwneud darpariaeth ynghylch cymunedau, gan gynnwys ceisiadau gan gymunedau (er enghraifft er mwyn sefydlu, diddymu, grwpio etc cynghorau cymuned) ac mae adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfyngu ar geisiadau gan gymunedau yn ystod yr adolygiadau ac ar ôl yr adolygiadau. Mae is-adrannau (1) a (2) o’r adran hon yn addasu adran 30 er mwyn atal cymunedau rhag gwneud ceisiadau yn ystod cyfnod o ddwy flynedd ar ôl i orchymyn gweithredu ddod i rym o dan y Bennod hon, ac er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo na chaniateir i gymunedau wneud ceisiadau hyd nes iddynt ddyroddi cyfarwyddydau pellach.

485. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 30(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn cywiro mân wall.

**Adran 167 - Cynghorau sir i ystyried anghenion hyfforddiant cynghorwyr cymuned a darparu hyfforddiant**

486. Dan yr adran hon rhaid i gynghorau sir:
- ystyried a ddylai fod yn orfodol i aelodau o gynghorau cymuned yn y sir gwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddi; a,
- phan fônt yn ystyried y dylai cwrs hyfforddi fod yn orfodol, sicrhau y darperir yr hyfforddiant.

487. Rhaid i gynghorau sir roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r rhwymedigaeth ar gynghorau i ystyried pa gyrsiau hyfforddi y dylai fod yn orfodol i aelodau cynghorau cymuned yn eu hardaloedd ac er mwyn sicrhau y darperir y cyrsiau hyfforddi hynny.

**Adran 168 - Aelodau o gynghorau cymuned i gwblhau hyfforddiant**

488. Mae adran 168 yn rhoi dyletswydd ar bob aelod cyngor cymuned i gwblhau’r holl gyrsiau hyfforddi y mae cyngor sir yr ardal y mae eu cymuned yn rhan ohoni wedi penderfynu eu bod yn orfodol. Fodd bynnag, o dan is-adran (2) nid yw aelod yn torri’r ddyletswydd a roddwyd iddo yn is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chwblhau’r cwrs hyfforddi gorfodol.

489. Er mwyn i gwrs hyfforddi fod yn orfodol i aelod cyngor cymuned:
- rhaid i gyngor sir ysgrifennu at gyngor cymuned yn ei hysbysu ei bod yn orfodol i’r aelod ddilyn y cwrs hyfforddi; a
- rhaid i’r cyngor cymuned hysbysu’r aelod yn ysgrifenedig bod rhaid iddo gwblhau’r cwrs hyfforddi.

490. dan y darpariaethau hyn, byddai'n bosibl i gyngor sir ei gwneud yn orfodol i aelodau penodol o gynghorau cymuned neu aelodau o gynghorau cymuned penodol gwblhau cyrsiau hyfforddi penodol.

**Adran 169 - Cwynion am fethiant aelod i gwblhau hyfforddiant**

491. Dan yr adran hon caiff unrhyw berson wneud cwyn i glerc cyngor cymuned os yw'n honni bod unrhyw aelod o'r cyngor hwnnw wedi methu â chwblhau hyfforddiant gorfodol. Rhaid i bob cwyn gael ei gwneud yn ysgrifenedig. Clerc cyngor cymuned yw swyddog a benodir gan y cyngor cymuned o dan adran 112(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r clerc wedi ei gyflogi gan y cyngor er mwyn darparu cymorth gweinyddol i weithgareddau'r cyngor. Mae'n cynghori'r cyngor ar y gyfraith ac yn gweithredu'r penderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud. Fodd bynnag, yn wahanol i gynghorau sir, caiff cyngor cymuned benodi un neu ragor o'u haelodau etholedig yn swyddogion, ond os yw swyddog cyngor cymuned hefyd yn aelod etholedig, nid oes ganddynt yr hawl i daliad cydnabyddiaeth.

**Adran 170 - Hysbysu'r cyngor cymuned fod aelod wedi methu â chwblhau hyfforddiant**

492. Mae'r adran hon yn nodi'r broses i'w dilyn gan glerc cyngor cymuned os yw'n derbyn cwyn bod aelod o'r cyngor cymuned wedi methu â chwblhau cwrs hyfforddi gorfodol, neu os oes ganddo reswm i gredu hynny.

493. Dan is-adran (1), rhaid i'r clerc roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod o'r cyngor cymuned y caiff gyflwyno sylwadau i'r clerc, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, am y methiant honedig i gwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

494. Rhaid i'r clerc benderfynu o fewn pa gyfnod y caiff yr aelod gyflwyno sylwadau o dan yr adran hon, ond ni chaiff y cyfnod fod yn llai na 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r aelod gan y clerc y gallai'r aelod gyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â'r methiant honedig i gwblhau hyfforddiant gorfodol.

495. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r clerc benderfynu a yw'r aelod wedi torri'r ddyletswydd ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau ddod i ben, ond cyn gwneud hynny rhaid iddo:
- ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan yr aelod o'r cyngor cymuned; ac
- ymgynghori â chadeirydd y cyngor cymuned (oni bai mai'r cadeirydd yw'r aelod yr honnwyd ei fod yn torri'r ddyletswydd).

496. Os yw'r clerc yn penderfynu bod yr aelod wedi torri'r ddyletswydd i gwblhau hyfforddiant gorfodol, rhaid i'r clerc hysbysu'r cyngor cymuned am y penderfyniad hwnnw mewn cyfarfod o'r cyngor.

**Adran 171 - Newid dyddiad etholiadau cynghorau cymuned ac estyn cyfnod swydd**

497. Mae'r adran hon yn diwygio adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn cysylltiad ag ethol cynghorwyr cymuned.

498. Mae adran 35(2) wedi ei ddiwygio er mwyn i'r etholiadau cyffredin nesaf (hynny yw, yr etholiadau sy'n digwydd fel rhan o'r cylch etholiadau arferol, yn hytrach nag is-etholiad), ar ôl yr etholiadau a amserlennwyd ar gyfer 2017, ddigwydd yn 2023. Er mwyn adlewyrchu y bydd etholiadau'n digwydd yn 2017, mae is-adran (1) yn darparu na all yr adran gael ei chychwyn hyd nes ar ôl etholiadau cyffredin y cynghorwyr cymuned yn 2017.

499. Mae is-adran (4) yn sicrhau bod cyfnod swydd cynghorwyr cyffredin a etholir yn 2017 yn adlewyrchu amseriad yr etholiadau.

500. Mae cylch etholiadau cyffredin cynghorau cymuned hefyd wedi ei diwygio er mwyn iddynt ddigwydd bob pum mlynedd ar ôl etholiadau 2017, yn hytrach na phob pedair blynedd. Mae hyn er mwyn adlewyrchu cylch etholiadau'r cynghorau sir (gweler adran 10 o'r Bil Drafft).

## *Rhan 7 – Materion Y Gweithlu*

### Adran 172 - Canllawiau Gweinidogol i gyrff cyhoeddus ar faterion y gweithlu

501. Mae'r adran hon yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus (a ddiffinnir yn adran 174) ynglŷn â materion y gweithlu (a ddiffinnir yn adran 173). Mae'n ofynnol o dan yr adran hon i gyrff cyhoeddus roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath. Caniateir i ganllawiau gael eu dyroddi i gorff cyhoeddus penodol, i gyrff cyhoeddus o ddisgrifiad penodol neu i gyrff cyhoeddus yn gyffredinol.

502. Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno dyroddi, diwygio neu dynnu yn ôl ganllawiau o dan yr adran hon, mae'n ofynnol iddynt ymgynghori â:

- pob corff cyhoeddus y mae'r canllawiau yn ymwneud ag ef;
- unrhyw undeb llafur a gydnabyddir gan gorff cyhoeddus y mae'r canllawiau yn ymwneud ag ef;
- ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

503. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i unrhyw ganllawiau sy'n cael eu dyroddi neu eu diwygio gan Weinidogion Cymru gael eu cyhoeddi ar ffurf electronig, ac ar unrhyw ffurf arall sy'n briodol yn eu barn hwy.

### Adran 173 - Ystyr 'materion y gweithlu'

504. Mae adran 173 yn diffinio'r term 'materion y gweithlu' at ddibenion y Rhan hon.

### Adran 174 - Ystyr 'corff cyhoeddus'

505. Mae'r adran hon yn diffinio 'corff cyhoeddus' at ddibenion y Rhan hon. Effaith is-adran (2) yw bod 'awdurdod cysgodol' yn gorff cyhoeddus at ddibenion y Rhan hon (gweler adran 15 am ddarpariaeth ar gyfer awdurdodau cysgodol).

### Adran 175 – Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o 'corff cyhoeddus'

506. Dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniad o 'corff cyhoeddus' yn adran 174 drwy ychwanegu person at y rhestr neu dynnu person ymaith ohoni. Cyn gwneud rheoliadau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a restrir o dan is-adran (2).

507. Dim ond personau sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus sydd wedi eu rhoi gan Ddeddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu oddi tanynt, neu y gellid eu rhoi gan Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y caniateir eu hychwanegu at y rhestr o 'cyrff cyhoeddus'.

**Adran 176 - Comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus**

508. Mae'r adran hon yn sefydlu comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus ('y Comisiwn'). Bydd y comisiwn statudol hwn, sef Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, yn disodli'r Comisiwn nad yw'n cynnwys staff a sefydlwyd ym mis Medi 2015.

509. Bydd y Comisiwn Staff yn cydweithio â chyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus ac undebau llafur yng Nghymru i ddatblygu cyngor a chanllawiau ar faterion y gweithlu sy'n deillio o:
- Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys uno awdurdodau Llywodraeth Leol;
- Materion gwasanaeth ar draws y sector cyhoeddus - megis cynllunio gweithluoedd, symudedd gweithluoedd rhwng sectorau a materion sy'n deillio o fodelau amgen ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.

510. Bydd y Comisiwn yn cynnwys dim mwy na 7 o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn penodi un o'r aelodau i gadeirio'r Comisiwn.

511. Bydd aelodau'r Comisiwn yn ddarostyngedig i delerau penodi a fydd, ymhlith pethau eraill, yn pennu pryd y caiff penodiad yr aelodau ddod i ben. Caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth a lwfansau i'r aelodau am eu gwaith ar y Comisiwn. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu i'r Comisiwn y staff, yr adeiladau a'r adnoddau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i'r Comisiwn gyflawni ei swyddogaethau, a nodir yn adran 177.

**Adran 177 – Swyddogaethau etc. y Comisiwn**

512. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn roi cyngor ar faterion y gweithlu (a ddiffinnir yn adran 173) pan fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn amdano. Er mwyn gwneud hynny, caiff y Comisiwn ofyn am wybodaeth am faterion y gweithlu gan unrhyw gorff cyhoeddus a restrir yn adran 174(1). Rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â chais o'r fath oni bai bod y corff yn ystyried y byddai gwneud hynny yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau. Os bydd y corff cyhoeddus yn penderfynu peidio â rhannu gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Comisiwn, rhaid iddo hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

513. Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol; rhaid cyflwyno'r adroddiad hwnnw i Weinidogion Cymru erbyn 30 Medi fan bellaf yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi copi o'r adroddiad blynyddol ar wefan ac ar unrhyw ffurf arall sy'n briodol yn eu barn hwy.

**Adran 178 – Diddymu'r Bennod hon**

514. Bydd yr adran hon yn diddymu'r Bennod hon ar ôl cyfnod penodol, oherwydd y bwriad yw y bydd y Comisiwn yn debygol o fod wedi cwblhau ei brif waith un flwyddyn ar ôl sefydlu'r cynghorau sir newydd o dan y Bil Drafft hwn (1 Ebrill 2020).

515. Diddymir adrannau 177 (1) i (4), sy'n rhoi i'r Comisiwn ei brif swyddogaeth gynghori, ar 1 Ebrill 2021. Nid yw adrannau 176 a 177(5) a (6) yn cael eu diddymu hyd 1 Hydref 2021, felly bydd yn ofynnol i'r Comisiwn lunio adroddiad blynyddol mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021, a bydd yn parhau i fodoli tan y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny.

516. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu dyddiad newydd y diddymir darpariaethau adrannau 176 a 177 arno. Fodd bynnag, ni chaiff y dyddiad newydd fod yn ddyddiad sy'n hwyrach nag 1 Ebrill 2023.

517. Effaith is-adran (3) yw y diddymir adran 178 ei hun un flwyddyn ar ôl diddymu adrannau 177(1) i (4) (pa un ai ar 1 Ebrill 2021, neu ar ddyddiad diweddarach a bennir gan Weinidogion Cymru).

## *Rhan 8 – Cyffredinol*

### Adran 180 - Cymhwysiad y Bil mewn perthynas â siroedd a bwrdeistrefi sirol hyd 1 Ebrill 2020

518. Mae adran 180 yn nodi sut y mae'r Bil Drafft i fod yn gymwys mewn perthynas â siroedd a bwrdeistrefi sirol, a'u cynghorau, hyd 1 Ebrill 2020.

519. Hyd nes y dyddiad hwnnw, mae unrhyw gyfeiriad yn y Bil Drafft at sir, ac eithrio yn Rhan 1 (Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir) neu Bennod 1 o Ran 6 (Adolygiad o drefniadau cynghorau cymuned), i'w ddarllen fel cyfeiriad at sir neu fwrdeistref sirol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 1996 (gweler adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994). Yn yr un modd, mae unrhyw gyfeiriad yn y Bil Drafft at gyngor sir i'w ddarllen fel cyfeiriad at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 1996.

520. Effaith adran 180 yw pan fo'r Bil Drafft (ac eithrio yn Rhan 1 neu Bennod 1 o Ran 6) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyngor sir (er enghraifft, drwy roi pŵer i gyngor sir neu osod dyletswydd ar ei aelodau), yna os bydd y ddarpariaeth honno yn dod i rym cyn 1 Ebrill 2020, bydd yn gymwys mewn perthynas â'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol a sefydlwyd ar 1 Ebrill 1996.

521. 1 Ebrill 2020 ystyr 'sir' fydd y siroedd a nodir yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft, ac ystyr 'cyngor sir' fydd cynghorau'r siroedd hynny.

522. Mae adran 183 yn ymdrin â phan fo darpariaethau yn y Bil Drafft yn dod i rym.

### Adran 181 – pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

523. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.

524. Caiff Weinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn Rhannau 2 i 7 o'r Bil Drafft (ac eithrio Rhan 1 a Phennod 1 o Ran 6, sy'n cynnwys darpariaeth sy'n rhoi pwerau tebyg i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y Rhan honno a'r Bennod honno) neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath. Caiff y rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu deddfiad.

### Adran 182 - Rheoliadau a gorchmynion o dan y Ddeddf hon

525. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i holl bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a gorchmynion o dan y Bil Drafft hwn fod yn arferadwy drwy offeryn statudol, a chaiff gorchmynion a rheoliadau wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

526. Mae is-adran (3) yn nodi'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, ac felly, ni ellir eu gwneud oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn cael ei gymeradwyo ganddo. Y rheoliadau perthnasol yw'r rhai sy'n:

- diwygio dyddiadau a bennir yn Rhan 1 (ardaloedd llywodraeth leol a chynghorau sir) neu ym Mhennod 1 o Ran 6 o'r Bil (adolygu cynghorau cymuned) (adran 20(1));
- diwygio'r 'dyddiad trosglwyddo' a bennir yn adran 2(8) o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, sef y dyddiad y bydd ardaloedd y prif awdurdodau lleol yn uno'n brif ardal newydd (adran 20(1));
- diwygio'r dyddiad terfynu mewn cysylltiad â'r 'cyfnod perthnasol' a bennir yn adran 39(2) o Fil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015. Bydd adran 143A o Fesur 2011, sy'n gymwys i benaethiaid gwasanaethau cyflogedig, hefyd yn berthnasol i holl brif swyddogion y cynghorau sir hyd nes y dyddiad hwn (adran 20(1));
- diwygio, diddymu neu ddatgymhwyso darpariaeth mewn Deddf Seneddol neu yn un o Fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n atal neu'n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol cymwys i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, oni bai bod y rheoliadau'n newid y rheoliadau presennol er mwyn ehangu eu cymhwysiad i awdurdodau lleol cymwys eraill, neu ddileu eu cymhwysiad o awdurdodau cymwys (adran 27(1));
- diwygio, diddymu neu ddatgymhwyso darpariaeth mewn Deddf Seneddol neu yn un o Fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddileu gorgyffyrddiadau rhwng y pŵer cymhwysedd cyffredinol a'r ddarpariaeth honno, oni bai bod y rheoliadau'n newid y rheoliadau presennol er mwyn ehangu eu cymhwysiad i awdurdodau lleol cymwys eraill, neu ddileu eu cymhwysiad o awdurdodau cymwys (adran 27(2));
- cyfyngu ar yr hyn y caiff awdurdod lleol cymwys ei wneud o dan y pŵer cymhwysedd cyffredinol neu wneud ei ddefnydd yn ddarostyngedig i amodau, oni bai bod y rheoliadau'n newid y rheoliadau presennol er mwyn ehangu eu cymhwysiad i awdurdodau lleol cymwys eraill, neu ddileu eu cymhwysiad o awdurdodau cymwys (adran 27(3) neu (4));
- ychwanegu, diwygio neu ddileu gofyniad y mae'n rhaid i gynghorau cymuned ei fodloni mewn perthynas â chymhwysedd (adran 34(1));
- newid y rhestr o awdurdodau a ddiffinnir fel 'awdurdodau sy'n gysylltiedig â chyngor sir' mewn cysylltiad â dyletswydd y cyngor i annog pobl leol i gyfranogi wrth wneud penderfyniad (adran 37(4));
- pennu 'awdurdod perthnasol' y caniateir gwneud ceisiadau gwella iddynt o dan amgylchiadau penodol iddynt (adran 64(6)(b));
- diwygio'r diffiniadau 'corff â diddordeb' neu 'corff gwirfoddol' mewn perthynas â cheisiadau gwella, neu wneud diwygiadau canlyniadol perthnasol (adran 74(3));
- gwneud darpariaeth ynghylch egwyddorion, prosesau ac arferion mewn perthynas â llywodraethu da (adran 111(3));
- newid y dyddiad y bydd is-adrannau (1) i (4) o adran 177 o'r Bil (sy'n rhoi prif swyddogaethau comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus) yn cael eu diddymu (adran 178(4)).

527. Mae is-adran (4) yn darparu bod unrhyw reoliadau eraill sy'n diwygio, yn addasu, yn datgymhwyso neu'n diddymu darpariaeth yn un o Ddeddfau neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu mewn Deddf Seneddol, hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol, oni bai eu bod:

- yn diwygio'r rhestr o 'gyrff cyhoeddus', a ddarperir yn adran 174, y mae'n rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch materion y gweithlu (adran 175); neu
- yn diwygio enwau'r siroedd (ni ellir diwygio enw Powys), a fydd yn bodoli o 1 Ebrill 2020, fel y nodir yn y Tablau ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i'r Bil Drafft (paragraff 2 o Atodlen 1).

528. Effaith is-adran (5) yw y bydd rheoliadau a wneir o dan y Bil Drafft hwn, nad ydynt wedi eu gwneud yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol o ganlyniad i is-adrannau (3) neu (4), yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, ni fydd rheoliadau a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 1 (diwygio enwau'r siroedd) yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Adran 183 - Dod i rym**

529. Mae'r adran hon yn nodi'r darpariaethau sy'n dod i rym ar ddiwrnod y Cydsyniad Brenhinol a'r rhai sy'n dod i rym 2 fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Daw gweddill y darpariaethau i rym drwy orchymyn cychwyn a wneir o dan is-adran (3) gan Weinidogion Cymru. Caiff unrhyw orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed neu nodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.